



CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# RHAGLEN 2017

# Rhagair



## Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru

Yn 2016, cafodd un o frwydrau tristaf a hiraf y Rhyfel Byd Cyntaf ei chofio. Bu i Frwydr y Somme bara am 141 diwrnod, a chollodd Cymru nifer o ddynion ifanc.

Roedd y gwasanaethau cofio yr euthum iddynt yng Nghymru a Ffrainc ym mis Gorffennaf yn gofiadwy iawn a hoffwn ddiolch i bawb gymerodd ran, yn enwedig y Maer a dinasyddion Mametz am eu cefnogaeth di-flino.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill yn 2016, wedi'u trefnu gan sawl mudiad. O'r perfformiad cyntaf o'r opera 'In Parenthesis', i'r arddangosfa babi drawiadol yng Nghastell Caernarfon, a'r dehongliad o'r rhan y chwaraeodd Fron-goch yn hanes Iwerddon a Chymru, cofiwyd am gyfnod anodd iawn o'n gorffennol.

Yn 2017, byddwn yn edrych ar Fflandrys a Passchendaele, gyda gweithgareddau cofio i dynnu sylw at golli awduron megis Hedd Wyn, un o'n beirdd enwocaf. Bydd gwasanaeth ger y Gofeb Genedlaethol yn Langemark ym mis Gorffennaf 2017 i gofio ei farwolaeth ef a sawl Cymro arall, ac yna bydd cartref teuluol Hedd Wyn yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd yn cael ei ail-agor fel amgueddfa o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Yng nghanol y brwydro ofnadwy, roedd rhai, oherwydd eu cydwybod, eu ffydd neu eu safiad gwleidyddol, wedi penderfynu peidio â mynd i ryfel. Yn 2016, datblygodd y prosiect 'Cymru dros Heddwch' arddangosfa deithiol, fydd yn cael ei gweld ledled Cymru yn 2017.

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar iawn i'r rhai hynny a weithiodd yn ddi-flino i gofio, ac i nodi'r achlysur, gan ddysgu inni beth yw gwir gost rhyfel.



## Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbenigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Bydd llawer i'w goffáu yng nghanmlwyddiant 1917: blwyddyn lawn gyntaf David Lloyd George yn Brif Weinidog, chwyldroadau Chwefror a Hydref Rwsia a adawodd y fath ddylanwad ar yr oes, ymgyrchoedd eithriadol y Dwyrain Canol a arweiniodd at drawsnewid y rhanbarth hwnnw, penderfyniad yr Unol Daleithiau i fynd i ryfel yn erbyn yr Almaen, a marwolaeth Hedd Wyn, bardd mwyaf eiconig Cymru, yn ystod ymgyrch waedlyd Passchendaele yn Fflandrys. Roedd hi hefyd yn flwyddyn pan gynyddodd gwrthwynebiad i orfodaeth filwrol ar sail cydwybod, yn erbyn cefndir o dyndra diwydiannol a gwleidyddol, wrth iddi deimlo fel pe na bai'r rhyfel byth am ddod i ben.

Un o brif ddyddiadau 2017 fydd 31 Gorffennaf, diwrnod cyntaf Trydedd Frwydr Ypres, pan fu farw Hedd Wyn, ac mewn cyd-ddigwyddiad, y bardd o Iwerddon, Francis Ledwidge, ill dau ar Gefn Pilckem. Cynhelir digwyddiadau i goffáu'r dyddiad yn Langemark-Poelkapelle, Fflandrys, ble cedwir y cof am Hedd Wyn yn fyw iawn o hyd, a dyma hefyd leoliad cofeb genedlaethol Cymru, a gysegrwyd ym mis Awst 2014. Datguddir nodweddion ychwanegol ar y gofeb, a chynhelir digwyddiadau eraill dros sawl diwrnod.

Bwriedir cyhoeddi yn 2017 y bydd perthynas agosach rhwng Cymru a Fflandrys yn digwydd ac mae cyfres o ddigwyddiadau ar y gweill yn y ddwy wlad ar lefel wleidyddol a diwylliannol. Dair blynedd ers dechrau'r cyfnod coffa, deil y gwerthfawrogiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith i dyfu, yn bennaf oherwydd ymdrechion parhaus trefnwyr, cynllunwyr, artistiaid creadigol a grwpiau cymunedol o bob cwr o Gymru, sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i greu treftadaeth addysgol barhaus.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG29677

# Cynnwys




## Pabïau: Weeping Window... 02

Rhaeadr yn cynnwys miloedd o babïau cerameg wedi'u gwneud â llaw yn arllwys o ragfuriau'r castell i'r tir islaw. Cafodd y cerflun trawiadol, gan yr artist Paul Cummins MBE a'r cynllunydd Tom Piper MBE, ei arddangos yng Nghastell Caernarfon rhwng 11 Hydref a 20 Tachwedd 2016, wedi'i gyflwyno'n arbennig gan Cadw a 14–18 NOW i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Cadw'r Drws yn Agored: datblygu Yr Ysgwrn 04

Naomi Jones sydd yn trafod arwyddocâd Hedd Wyn a'i gartref teuluol, Yr Ysgwrn, ac yn manylu ar yr ailddatblygiad sydd ar waith yn Yr Ysgwrn i greu dehongliad ar bump o themâu, sef Hedd Wyn a'i gyfraniad barddol; effaith y Rhyfel Byd Cyntaf; treftadaeth amaethyddol; diwylliant yr iaith Gymraeg; a hanes cymdeithasol troad yr ugeinfed ganrif.

## Cadw'r Cof yn Fyw: coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 06

Rhian James sydd yn rhoi rhagolwg o ddigwyddiadau a gweithgareddau Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 2017.

## Cymylau Duon a Gobaith: cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Amgueddfa Cymru–National Museum Wales 08

Eleni mae gan Amgueddfa Cymru–National Museum Wales raglen gyffrous o arddangosfeydd, gweithgareddau a digwyddiadau i gofio Brwydr Passchendaele, gan ddatgelu hanesion gan staff yr amgueddfa o'r cyfnod ac archwilio effaith y rhyfel ar fywydau pobl gyffredin ledled y wlad.

## Cymru a Chwyldroadau Rwsia 10

Yr Athro Syr Deian Hopkin sydd yn trafod y chwyldroadau yn Rwsia yn 1917, yr ymateb yng Nghymru, a rôl milwyr o Gymru yn yr ymyriad milwrol yn Rwsia.

## Llenyddiaeth Gymreig y Rhyfel Byd Cyntaf 12

Yr Athro Gerwyn Wiliams a'r Athro Daniel Williams sydd yn trafod hanes a gwaith dau o feirdd iaith Gymraeg a dau o feirdd iaith Saesneg mwyaf blaenllaw Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## Heddlu De Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf 14

Gareth Madge sydd yn adrodd storïau Rhyfel Byd Cyntaf rhai o'r nifer o heddweision a wasanaethodd o'r lluoedd heddlu a fyddai'n ddiweddarach yn cael eu cyfuno i greu Heddlu De Cymru.

## Rygbi Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf 16

Gwyn Prescott sydd yn adrodd stori tri o'r tri ar ddeg o chwaraewyr rygbi rhyngwladol i Gymru fu farw wrth wasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Cymru dros Heddwch 18

Yn ystod y can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu i'r ymchwil am heddwch? Prosiect 'Cymru dros Heddwch', sy'n archwilio sut y bu i erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf ysbrydoli rhai fu'n ymladd a heddychwyr fel ei gilydd i gydweithio er mwyn creu byd gwell – gyda gwersi ingol ar gyfer rôl Cymru yn y byd heddiw.

## Rhyfel Byd Cyntaf: Cynllun Grantiau Ysgolion Uwchradd 20

Cipolwg ar brosiectau coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf y mae ysgolion yng Nghymru yn eu cyflawni gan ddefnyddio grantiau o £1,000 a ddarparwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

## Ffynonellau Cyllid 22

Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Digwyddiadau 24

Rhestr digwyddiadau ar gyfer 2017.


**(clawr blaen) Map o Drydedd Frwydr Ypres, trwy garedigrwydd Department of History, United States Military Academy, West Point, New York.**

**(uchod) Golwg banoramig o adfeilion Ypres, 1 Hydref 1917.**

# Pabïau: *Weeping Window*

## Gan yr artist Paul Cummins MBE a'r dylunydd Tom Piper, MBE




***Weeping Window*** **o'r gosodiad 'Blood Swept Lands and Seas of Red' – pabïau a'r cysyniad gwreiddiol gan yr arlunydd Paul Cummins MBE a chynllun y gosodiad gan Tom Piper MBE – gan Paul Cummins Ceramics Limited a Historic Royal Palaces, yn wreiddiol yn Nhŵr EM yn Llundain 2014.**

**Castell Caernarfon...** symbol eiconig o gryfder, rheolaeth filwrol, y frwydr dros hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol, treftadaeth a cheisio heddwch. Adrodda Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig hanes y gatrawd hynaf a mwyaf yng Nghymru trwy ryfel a heddwch, ac mae'n dod â straeon milwyr ddoe a heddiw yn fyw – megis beirdd y Rhyfel Byd Cyntaf Hedd Wyn, Siegfried Sassoon a David Jones, a stori'r 'Rhyfelwr Anhysbys' (y gofeb yn Abaty Westminster, a fwriwyd gan Weithfeydd Haearn Brunswick, Caernarfon).

**Pabïau: *Weeping Window...*** Rhaeadr yn cynnwys miloedd o babïau cerameg wedi'u gwneud â llaw yn arllwys o ragfuriau'r castell i'r tir islaw. Cafodd y cerflun trawiadol, gan yr artist Paul Cummins MBE a'r cynllunydd Tom Piper MBE, ei arddangos yng Nghastell Caernarfon rhwng 11 Hydref a 20 Tachwedd 2016, wedi'i gyflwyno'n arbennig gan Cadw a 14–18 NOW i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.



Lansiwyd Pabïau: *Weeping Window* yng Nghastell Caernarfon gan yr Artist Paul Cummins MBE a'r Cynllunydd Tom Piper MBE, gyda Gerald Williams, nai'r bardd rhyfel o Gymru, Hedd Wyn, yn plannu'r pabi olaf (top) ar y cyd â'r Gweinidog Sgiliau Julie James a Chadeirydd 14-18 NOW Vikki Heywood (uchod). Delweddau © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol fel un o'r elfennau cerfluniol dramatig allweddol ar gyfer y gosodiad *'Blood Swept Lands and Seas of Red'*, a daeth tua 5 miliwn o bobl i'w gweld yn Nhŵr Llundain yn hydref 2014. Castell Caernarfon yw'r lle cyntaf yng Nghymru i gynnal y cerfluniau fel rhan o 'Daith y Pabi' yn y DU.

Cyflwynwyd rhaglen helaeth o wirfoddoli, ymgysylltu cymunedol a gweithgareddau dysgu trwy brosiect 'Cymru dros Heddwch' WCIA, fel cam tuag at ganrif ers Eisteddfod y Gadair Ddu Hedd Wyn Ynys Môn 2017. Mae AS Sir Gaernarfon David Lloyd George, a fu'n Brif Weinidog rhwng 1916 a 1922, yn cael ei ganmol yn helaeth am ddod â'r gwrthdaro i ben a llunio trafodaethau Heddwch Paris. Mae ei gartref genedigol a'i waddol i'w weld yn Amgueddfa Lloyd George Gwynedd yn Llanystumdwy.



Magwyd y bardd rhyfel Cymreig Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans), yng nghymuned Trawsfynydd yng Ngwynedd. Fe ymunodd â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig trwy orfodaeth filwrol yn 1916, ac fe'i lladdwyd ar faes y gad yn Passchendaele ym mis Gorffennaf 1917 – ddyddiau ar ôl llunio ei gerdd eiconig 'Yr Arwr'. Pan enillodd y gerdd hon yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw, fe orchuddiwyd ei gadair fuddugol â lliain du. Bydd canrif ers Eisteddfod y Gadair Ddu yn cael ei nodi ym mis Awst 2017 yn Ynys Môn, a bydd cartref Hedd Wyn, Yr Ysgwrn, yn cael ei ailagor yn 2017 fel atyniad i ymwelwyr a chanolfan addysg er cof am y bardd.

## Cofio'r rhai a gollwyd

Ar ôl gweld cerflun y *Weeping Window,* gallai ymwelwyr ddarganfod **straeon milwyr** trwy Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, gweld **Llyfr Cofio Cymru** o'r WCIA ynghyd ag arddangosfa ffotograffig *'Faces of the Fusiliers'*. Casglodd gofod myfyrio miloedd ar filoedd o negeseuon a theyrngedau, a phlannwyd 11,000 o babïau coch gan y cyhoedd yng **Ngardd Goffa'r Castell.** Cynigiodd y Pabïau ffocws naturiol i goffâd Cymru ar **Ddydd y Cofio 2016** ar 11 Tachwedd – wedi'i arwain gan y Prif Weinidog – a chanrif ers diwedd **Brwydr y Somme** ar 18 Tachwedd.

## Dysgu gan Gymru a'r Byd

Teithiodd **131,867 o bobl** i Gastell Caernarfon, rhai mor bell â New South Wales – a llawer o'r gymuned leol. Fe wnaeth **teithiau safle** 'Cofio er Heddwch' a sesiynau Crefftau Pabi alluogi i gannoedd ddysgu am effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Gymru, a safbwyntiau ar wrthdaro ddoe a heddiw. Datblygodd nifer o ysgolion **brosiectau dysgu a sgiliau** arloesol wedi'u hysbrydoli gan y pabïau, megis straeon digidol, gweithdai barddoniaeth, celf a chrefft ac ymchwil hanesyddol. Trefnodd bobl ifanc Gynhadledd Ysgolion Rhyfel Byd Cyntaf yn y rhaglen Pabïau, a **Gwobr Arwyr Heddwch** ar y diwedd, fel rhan o'u hastudiaethau Bagloriaeth Cymru.

## Sbarduno Cymuned Gwynedd


Hyfforddwyd 49 o wirfoddolwyr cymunedol lleol a gyfrannodd **1,400 awr** i gefnogi ymwelwyr a gweithgareddau cymunedol, wedi'u cefnogi gan Gymru dros Heddwch ac Amgueddfeydd Gwynedd. Fe wnaeth arddangosfa yn Oriel Pendeitsh ddwyn ynghyd **ymatebion ysgolion lleol i'r pabïau** mewn celf, ochr yn ochr â negeseuon ieuenctid o Heddwch ac Ewyllys Da a straeon o gyfraniad Caernarfon ei hun i'r ymdrech heddwch yn y cyfnod ar ôl gwrthdaro'r Rhyfel Byd Cyntaf hyd heddiw.

**131,867 o ymwelwyr dros 6 wythnos 49 o wirfoddolwyr wedi rhoi 1,400 awr o amser**

Bydd **'Llwybr Heddwch'**, a ddatblygwyd i alluogi i ymwelwyr archwilio Tref Caernarfon a darganfod mwy am dreftadaeth gymunedol leol, yn waddol parhaus i ddysgu a thwristiaeth ymhell ar ôl i'r Pabïau symud ymlaen i leoliadau newydd – gan gynnwys y **Senedd yng Nghaerdydd rhwng 5 Awst a 25 Medi 2017.**

(isod dde) Llyfr Cofio Cymru. Y ddwy ddelwedd © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru






**"Roedd y Pabïau i Gaernarfon yr un peth â'r hyn oedd y Gemau Olympaidd i Lundain... Teimladwy, hyfryd, a ffynhonnell balchder ac ysbrydoliaeth i genhedlaeth." Fiona Owens, Llanfairfechan**

# Cadw'r Drws yn Agored: datblygu Yr Ysgwrn




*"Cadw'r drws yn agored, dyna 'dw i wedi'i wneud ar hyd fy oes," meddai Gerald Williams, nai Hedd Wyn, cyn-berchennog a cheidwad Yr Ysgwrn.*

Yr Ysgwrn. © APCE



Hedd Wyn. Trwy Garedigrwydd APCE

A dyna'r fantell a gododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri pan brynwyd Yr Ysgwrn ar gyfer y genedl yn 2012. Flwyddyn yn ddiweddarach derbyniwyd grant datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i alluogi'r Awdurdod i lunio cynlluniau manwl ar gyfer y cartref. Penodwyd tîm dylunio dan arweiniad penseiri cadwraethol Purcell UK ac ym mis Mehefin 2014 derbyniwyd grant o £2.8m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i wireddu'r cynlluniau. Gwerth ariannol y prosiect yw £3.4m ac mae'n cynnwys gwaith cadwraeth, adeiladu, tirlunio, dehongli, gweithgareddau ac ymgysylltu. Bwriedir ail-agor y safle i'r cyhoedd yng ngwanwyn 2017.

## Cartref Hedd Wyn

Mae hanes y bardd Ellis Humphrey Evans, sy'n fwy adnabyddus wrth ei enw barddol Hedd Wyn, yn rhan o chwedloniaeth y Gymru fodern. Lladdwyd ef ar ddiwrnod cyntaf brwydr Cefn Pilckem, ar 31 Gorffennaf 1917, cyn y cyhoeddiad bump wythnos yn ddiweddarach mai fo oedd enillydd cadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gorchuddiwyd y gadair â mantell ddu a chafodd ei hadnabod fyth ers hynny fel 'Y Gadair Ddu'. Daeth y Gadair Ddu, Yr Ysgwrn a Hedd Wyn ei hun yn symbolau o golli bron deugain mil o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, o alar eu teuluoedd, a'r cadeiriau gwag a adawyd ar aelwydydd drwy Gymru.

Ymwelodd miloedd o bererinion â'r Ysgwrn dros y blynyddoedd i dalu gwrogaeth i Hedd Wyn, i gyfarfod â'i deulu ac i weld y casgliad arbennig o gadeiriau barddol a enillodd rhwng 1907 ac 1915. Ond sut mae mynd ati i warchod a datblygu safle sydd mor bwysig yng nghof y genedl?

Mae haenau o hanes yn adeiladau'r Ysgwrn, o hanes y chwe chadair farddol a enillodd Hedd Wyn i'r 26 haen o bapur wal a ddarganfuwyd yn y gegin, a phenderfynwyd mai amlygu'r haenau hyn a rhoi llais i'r straeon fyddai nod y dehongli. O'r herwydd, mae'r dehongli yn ysgafn a'r bwriad yw galluogi'r adeiladau, y creiriau a'r cymeriadau i gyfleu eu stori eu hunain. Mae dehongli'r Ysgwrn yn canolbwyntio ar bump o themâu oesol, sef Hedd Wyn a'i gyfraniad barddol, effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, treftadaeth amaethyddol, diwylliant yr iaith Gymraeg a hanes cymdeithasol troad yr ugeinfed ganrif.

Mae'r Ysgwrn ei hun yn adeilad rhestredig gradd II*, a saif nifer o adeiladau amaethyddol traddodiadol yng nghwrtil y ffermdy, gan gynnwys Beudy Tŷ a Tŷ Bach (y cwt mochyn). Mae gwarchod a gwella ffabrig a chymeriad yr adeiladau hyn yn ganolog i'r datblygiad, gan gynnwys adfer to llechi a simdde Tŷ Bach,



Yr Ysgwrn. © APCE



Cegin eiconig Yr Ysgwrn © APCE



Sied amaethyddol Yr Ysgwrn a chanddi do glaswellt. © APCE

trin problemau tamprwydd yn y ffermdy ac atgyweirio Beudy Tŷ. Er bod cadwraeth yr adeiladau hanesyddol yn greiddiol i'r prosiect, mae'n rhaid i'r cynllun fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy ac mae elfennau ohono yn drawiadol fodern. Yn y dyfodol caiff y safle ei wresogi drwy dechnoleg biomas a chan gofio mai fferm weithio yw'r Ysgwrn, mae'r sied amaethyddol newydd, sydd â tho gwair byw, yn unigryw ei dyluniad. Am y tro cyntaf erioed caiff y ffermdy ei gysylltu i wasanaethau trydan, dŵr a gwres a fydd yn ein galluogi i roi'r gofal gorau posib i'r casgliad.

Mae'r ffermdy yn sicr yn haeddu ei alw'n 'eiconig'. Dros y ganrif ddiwethaf, ychydig iawn o newid fu ynddo, gyda'r creiriau a'r celfi gwreiddiol yn dal i lenwi'r gegin a'r cadeiriau barddol yn cymryd eu lle yn osgeiddig yn y parlwr. Mae'r naws yn unigryw ac yn gartrefol ac mae'r cartref yn dweud ei stori ei hun. Am y rheswm hwn, ysgafn iawn fydd y dehongli o fewn y tŷ. Serch hynny bydd rhai newidiadau, gan gynnwys agor y llofftydd a'r bwtri i'r cyhoedd am y tro cyntaf a symud y cadeiriau barddol a enillodd Hedd Wyn mewn eisteddfodau lleol i'w harddangos yn y llofftydd.

Cam oddi wrth y cnewyllyn hanesyddol saif Beudy Llwyd, adeilad amaethyddol traddodiadol a fydd yn y dyfodol yn adeilad croeso ac yn gartref i oriel, ystafell addysg, siop, caffi a derbynfa. Yma caiff ymwelwyr eu blas cyntaf ar stori'r Ysgwrn cyn mentro i brofi gweddill y safle. Gyferbyn â'r Beudy Llwyd bydd maes parcio wedi'i guddio yn y dirwedd a thri llwybr yn arwain ymwelwyr o amgylch y tirlun a ysbrydolodd Hedd Wyn. Bydd Beudy Tŷ yn cynnig profiad dehongli gweledol clywedol ar ffurf ffilm ac arddangosfa Arwyr Trawsfynydd, a'r ffermdy, fel erioed, yn cyfleu cartref y teulu. Cartref i ystlumod Yr Ysgwrn fydd Tŷ Bach a byddwn yn ceisio meithrin bywyd gwyllt drwy'r safle cyfan, gan gynnwys planhigion cynhenid, ystlumod, tylluanod a gwenyn.

Bydd 2017 yn flwyddyn fawr a chofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol i dderbyn y newyddion diweddaraf:


**Twitter/ Instagram:** @yrysgwrn

**Facebook: Yr Ysgwrn:** Cartref Hedd Wyn/ Home of Hedd Wyn



Y Gadair Ddu. Trwy Garedigrwydd Jan Davies

# Cadw'r Cof yn Fyw: coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru



NLW MS 4628C Yr Arwr gan Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) © Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## Arddangosfeydd

Gan mlynedd yn ôl bu farw dau fardd ar faes y gad yn ystod y Rhyfel Mawr: Hedd Wyn ac Edward Thomas. Yn 2017 bydd y Llyfrgell yn dathlu bywyd a gwaith y beirdd rhyfel hyn yn yr arddangosfa 'Diffodd yr Awen: Hedd Wyn & Edward Thomas'.

Bydd cyfle i weld copïau o awdl enwog Hedd Wyn, 'Yr Arwr', ac atgofion ffrind a chyd-filwr iddo, J. B. Thomas, am eu hamser yn y fyddin. Yn ogystal, bydd yr arddangosfa yn ceisio taro golwg ar y ffordd mae stori Hedd Wyn – a fu farw ar faes y gad ym mrwydr Cefn Pilckem ger Ypres (Ieper) – wedi ysbrydoli awduron, beirdd a gwneuthurwyr ffilm hyd heddiw.

Byddwn hefyd yn edrych ar effaith y rhyfel ar Edward Thomas (1878–1917) drwy archwilio ei archif sylweddol, gan gynnwys y llythyrau a anfonodd at ei wraig, Helen, yn disgrifio bywyd ar y ffrynt, a drafftiau o'i gerddi. Ganed Edward Thomas yn Llundain i deulu o Gymru ac, er ei fod yn llenor brwd, ni wnaeth gychwyn barddoni ei hun tan 1914. Un o'r eitemau mwyaf arwyddocaol yn yr arddangosfa yw'r dyddiadur a gadwodd dros dri mis olaf ei fywyd, sy'n cynnwys disgrifiadau o fywyd yn y fyddin ac o fyd natur,

a drafft o'i gerdd olaf, 'The sorrow of true love'. Roedd y dyddiadur hwn yn dal i fod ym mhoced ei got fawr pan fu farw ym mrwydr Arras, ddydd Llun y Pasg 1917, yn fuan wedi iddo gyrraedd Ffrainc.

Gallwch weld yr arddangosfa deimladwy hon yn Anecs Gregynog rhwng 18 Chwefror a 2 Medi.

## Gwirfoddolwyr


Mae tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr y Llyfrgell wedi bod yn brysur yn ystod 2016 yn cyfrannu at brosiect Cymru dros Heddwch a'r gwaith o adysgrifio Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru. Mae'r Llyfr yn cofnodi enwau tua 35,000 o aelodau'r lluoedd arfog a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r bwriad yn y pen draw yw ei wneud yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach.

Bydd y gwirfoddolwyr yn troi eu sylw eleni at gasgliad y Llyfrgell o gofnodion Tribiwnlys Sir Aberteifi. Dyma'r tribiwnlys a fu'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn consgripsiwn yn y sir yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaeth Milwrol yn 1916 gallai pob dyn rhwng 18 a 41 mlwydd oed gael ei alw ar gyfer gwasanaeth milwrol oni bai fod ganddo dystysgrif eithrio. Gallai dynion wneud cais am eithriad i'r Tribiwnlys Gwasanaeth Milwrol lleol ar sail rhesymau megis salwch, neu eu bod yn cael eu cyflogi mewn 'swyddi cadw' fel ffermio neu fwyngloddio, neu am eu bod yn wrthwynebwyr cydwybodol.

Mae'r casgliad hynod o ddiddorol hwn o Dribiwnlys Sir Aberteifi yn datgelu rhai o straeon personol y rhai oedd yn ymofyn am eithriad a'r rhesymau y tu cefn i'r cais, p'un ai yn anghenraid oherwydd gwaith neu'r sefyllfa gartref neu'n benderfyniad moesol. Amcan gwirfoddolwyr y Llyfrgell yw adysgrifio meysydd penodol yn y papurau hyn er mwyn eu gwneud yn fwy chwiliadwy.

## Gwaddol digidol

Mae dros ugain o becynnau dysgu digidol wedi'u creu ar y cyd rhwng y Llyfrgell ac Amgueddfa Cymru – National Museum Wales ac ar gael drwy wefan Hwb. Mae'r adnoddau hyn yn edrych ar amryw o destunau gwahanol yn ymwneud â'r rhyfel, megis propaganda, recriwtio, a rôl merched. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi datblygu gêm Hangman yn seiliedig ar Gôd Morse i brofi eich gwybodaeth am y rhyfel (gemmorse.llgc.org.uk). Pob lwc!



MILITARY SERVICE ACT, 1916.

APPLICATION AS TO EXEMPTION.

Cais am eithriad, dyddiedig 10 Mawrth 1916, Cofnodion Tribiwnlys Rhyfel Mawr (Apeliadau) Sir Aberteifi (CTB3/3/26). © Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae gwefan Cymru yn y Rhyfel yn parhau'n agored ac yn caniatáu i chi gyfrannu at gronfa ddata gynyddol o wŷr a gwragedd Cymru a gollodd eu bywydau yn ystod y rhyfel (www.walesatwar.org). Cofiwch hefyd fod deunydd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r profiad Cymreig yn dal ar gael ar Cymru1914.org ac ar wefan Papurau Newydd Cymru Arlein. Yn ogystal, mae cannoedd o eitemau perthynol i'r rhyfel ar wefan Casgliad y Werin Cymru, sy'n parhau i gefnogi a chynnal allbynnau prosiectau Rhyfel Byd Cyntaf cymunedol (www.casgliadywerin.cymru).

Am fwy o fanylion a dyddiadau holl arddangosfeydd a digwyddiadau'r Llyfrgell, ewch i www.llgc.org.uk neu dilynwch ni ar Facebook neu Twitter @LlGCymru



Cofeb Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, ffotograffwyd gan Geoff Charles (1 Chwefror 1967). © Llyfrgell Genedlaethol Cymru.






# Cymylau Duon a Gobaith: cofio'r Rhyfel yn Amgueddfa Cymru-National Museum Wales

***Eleni mae gan Amgueddfa Cymru-National Museum Wales raglen gyffrous o arddangosfeydd, gweithgareddau a digwyddiadau i gofio Brwydr Passchendaele, gan ddatgelu hanesion gan staff yr amgueddfa o'r cyfnod ac archwilio effaith y rhyfel ar fywydau pobl gyffredin ledled y wlad.***

## 'Ein hamgueddfa yn ystod y Rhyfel Mawr – hanesion staff'

Mae hanesion wrth galon ein hamgueddfa ac eleni byddwn ni'n datgelu straeon y staff a helpodd i greu Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r rhai a adawodd eu swyddi i ymladd ar y Ffrynt. Pobl fel Eleanor Vachell, a ysgwyddodd y cyfrifoldeb am ofalu am y casgliadau Botaneg gyda help disgyblion Ysgol Uwchradd y Merched, Caerdydd. Bu i Eleanor hefyd gefnogi ymgyrch y rhyfel fel un o "Foneddigesau Pwyllgor Cymdeithas Nyrsio Gweithwyr Atodol y Lluoedd Tiriogaethol" mewn ysbyty a sefydlwyd yng Ngerddi Howard, gan weithio fel nyrs a llyfrgellydd. Ar y cyd â'i thad, Charles Tanfield Vachell, lluniodd herbariwm Vachell, a gedwir gan yr amgueddfa hyd heddiw.

## Arddangosfeydd

Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau'n gartref i arddangosfa deithiol Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), 'Gobaith yn y Rhyfel Mawr'. Mae'r arddangosfa, a grëwyd gan gymunedau a effeithiwyd, yn talu teyrnged i ddewrder a phenderfyniad y rheiny a fu'n achub bywydau ar adeg o wrthdaro mawr. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn bydd yr amgueddfa'n canolbwyntio ar gelfyddyd graffig Frank Brangwyn, gydag arddangosfa deithiol gan Wasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Swydd Caerlŷr. Er nad oedd ef yn artist rhyfel swyddogol, cynhyrchodd Brangwyn dros bedwar ugain o gynlluniau posteri yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r delweddau'n rhoi cip i ni ar sut oedd hi i lawer o bobl bryd hynny.

Bydd ein harddangosfeydd teithiol poblogaidd yn dal i deithio i safleoedd eraill Amgueddfa Cymru: bydd 'Cymylau Duon dros y Diwydiant Gwlân' i'w gweld rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf yn Amgueddfa Lechi Cymru a bydd 'Pabïau Cofio' yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol.

Mae 'Merched y rhyfel: er gwell neu er gwaeth', arddangosfa fechan Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, yn edrych ar brofiadau merched mewn rhyfeloedd yn yr hen fyd ac i ba raddau y newidiwyd hyn oll gan y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Institiwt Oakdale

Bydd Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan yn dathlu canmlwyddiant Institiwt y Gweithwyr, Oakdale. Adeiladwyd yr Institiwt yn 1917 yn ganolbwynt i fywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol y gymuned lofaol newydd. Dyma oedd canolbwynt cymuned pentref Oakdale am 80 mlynedd cyn iddo gau yn 1987 a chael ei symud i Sain Ffagan yn 1989. Yn 2017 mae'r Amgueddfa'n bwriadu dod â'r adeilad yn fyw unwaith eto, i adlewyrchu'i bwrpas gwreiddiol fel lle ar gyfer y gymuned. Bydd yr hanes a'r straeon a ddangosir yno'n cael eu datblygu ar y cyd â grwpiau cymunedol o Oakdale ac aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Cofiwch gadw llygad am newyddion #Oakdale100 dros y misoedd nesaf.

## Treftadaeth Ddigidol

Yn 2017 bydd gwaith yn parhau ar y bas data digidol ar lein o wrthrychau'r Rhyfel Byd Cyntaf o gasgliadau'r Amgueddfa, gydag ychwanegiadau sy'n fedalau a gweithiau celf gan gynnwys gwaith gan Muirhead Bone, Charles Pears ac Eric Kennington fel delweddau propaganda'r Rhyfel Byd Cyntaf: http://www.museumwales.ac.uk/first-world-war/ Byddwn ni hefyd yn agor mwy o'n casgliadau drwy gyfrwng Casgliad Pobl Cymru, gan ddarparu etifeddiaeth ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, addysg ac ymchwil.

## Ymgysylltu Cymunedol a Digwyddiadau

Mae Amgueddfa Cymru wedi cynllunio rhaglen eang o ymgysylltu cymunedol ledled y wlad. Yn eu plith mae prosiectau cymunedol yn Llanberis, sy'n canolbwyntio ar gofeb ryfel y safle, llwybrau digidol rhyngweithiol Castell Sain Ffagan a fydd yn rhoi sylw i hanes yr ystâd fel ysbyty ategol, gweithdai adrodd straeon i deuluoedd a chyngherddau awr ginio pan fydd cerddorion lleol yn perfformio caneuon cyfnod y rhyfel. Byddwn ni'n cydweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn ail-ddehongli rhai o'n gweithiau celf allweddol o'r Rhyfel Byd Cyntaf ac yn coffáu marwolaeth Hedd Wyn drwy gyfrwng gweithdai barddoniaeth ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc. Yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref byddwn ni'n cydweithio gyda Chlybiau Bechgyn a Merched Cymru, gan archwilio bywydau milwyr a morwyr duon ac ymateb y gymuned iddyn nhw ar ôl y rhyfel.

Bydd Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan yn parhau â'r gwaith gyda chymunedau milwrol ddoe a heddiw fel rhan o ddatblygu'r orielau newydd. Mae curaduron yn casglu safbwyntiau milwyr heddiw ar y gwrthrychau o'r cyfnod sydd gennym yn ein casgliadau.

I gael manylion llawn a dyddiadau holl arddangosfeydd a gweithgareddau Amgueddfa Cymru, ewch i www.amgueddfa.cymru neu dilynwch ni ar Twitter @amgueddfaCymru

(isod chwith) Gweithgareddau teuluol ar draws safleoedd AC-NMW © AC-NMW
(isod canol) Gwasanaeth Cofio Blynyddol Newbridge yn Sain Ffagan © AC-NMW
(isod dde) Perfformiadau theatrig a cherddorol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd © AC-NMW





# Cymru a Chwyldroadau Rwsia










(uchod) Swm fawr o flawd a ddaethpwyd o hyd iddo wedi'i gronni yn yr Orsaf Heddlu. Dylai'r cyflenwadau yma fod wedi'u cludo i'r Duma i'w ddosbarthu i'r tlawd, Petrograd, Mawrth 1917. © IWM (Q 69403)

Pan fu'n chwyldro yn Petrograd, prifddinas Rwsia'r Tsar, ym mis Chwefror 1917, croesawyd y gwrthdaro'n frwd yng Nghymru, ledled Prydain ac mewn nifer o wledydd eraill yn y Gorllewin. Roedd streicio a gwrthdystio wedi dechrau ar 22 Chwefror 1917 (7 Mawrth yn y Calendr Arddull Newydd). Â'r fyddin wedi'i gwanhau'n ddifrifol, trodd anhrefn yn wrthryfel yn sydyn iawn. Gwrthododd milwyr ufuddhau i orchmynion, llofruddiwyd swyddogion gan eu gwŷr eu hunain, roedd hi'n anhrefn llwyr ac ar 2 Mawrth (15 Mawrth) ildiodd y Tsar ei orsedd, gan ddod â 300 mlynedd o unbennaeth Romanov i ben. Anfonwyd 'llongyfarchiadau llawen i Ddemocratiaid Rwsia' oddi wrth Ffederasiwn Glowyr De Cymru, tra bo cyfarfodydd dan eu sang ym Margoed, Merthyr, Gwauncaegurwen a threfi eraill yn annog cefnogaeth i'r Llywodraeth Dros Dro.

Roedd Ymerodraeth Rwsia wedi bod yn hynod amhoblogaidd ymysg rhyddfrydwyr, ond roedd yn gynghreiriad yn y rhyfel yn erbyn yr Almaen. Cyfraniad aneffeithiol Byddinoedd Rwsia ar y ffrynt Ddwyreiniol oedd yn peri gofid go iawn mewn rhai meysydd, yn enwedig wrth i'r ffrynt Orllewinol ildio mwy a mwy o glwyfedigion a meirwon. Croesawyd y llywodraeth newydd gan lawer o'r wasg Gymreig yn y gobaith y byddai'n adfywio'r ymdrech filwrol ac yn cyflymu diwedd y rhyfel hyd yn oed.

Ond buan y daeth hi'n amlwg mai agor bocs Pandora wnaeth y chwyldro, yn hytrach nag asio Rwsia ynghyd. O'r cychwyn, llethwyd y weriniaeth newydd â phroblemau. Canlyniad hynny oedd ymrafael am rym, ac anfonwyd dirprwyaeth o lywodraeth Prydain i Rwsia i geisio cynnal cefnogaeth i'r rhyfel. Wrth i Lenin ac arweinwyr comiwnyddol Bolsiefig eraill ddychwelyd o alltudiaeth ym mis Ebrill, dyma ddechrau ar gyfnod gwleidyddol newydd pan gododd cynghorau gweithwyr a milwyr, y Sofietiaid, yn rym nerthol newydd i wrthwynebu'r llywodraeth.

Er bod llywodraeth Prydain yn bryderus o weld y datblygiadau



hyn, cafodd eraill ym Mhrydain eu calonogi. Dros haf 1917, ceisiodd cynhadledd fawr yn Leeds, ble roedd nifer fawr o gynadleddwyr o Gymru'n bresennol, sefydlu'i fersiwn ei hun o gynghorau gweithwyr. Ffurfiwyd Cyngor Dros Dro cyffredinol, sefydlwyd cynghorau dosbarth a chyhoeddwyd bod cynhadledd yn mynd i ddigwydd yn Abertawe ar 28 Gorffennaf 1917 i sefydlu cyngor Cymru. Serch hynny, enynnodd y cyswllt rhwng y fenter hon a'r mudiad i wrthwynebu'r rhyfel, ymateb cryf oddi wrth gefnogwyr y rhyfel a tharfwyd yn dreisgar ar y gynhadledd gan dorf elyniaethus o wladgarwyr. Er gwaethaf addewidion i ailgynnull y gynhadledd, ni ddigwyddodd hynny.

Dros yr haf 1917, trodd sylw Cymru a Phrydain at yr ymgyrchoedd milwrol enfawr oedd yn digwydd yn Fflandrys, Trydedd Frwydr Ypres, Passchendaele, a ddechreuodd ar 31 Gorffennaf. Pylodd y diddordeb yn Rwsia. Roedd hi'n anodd cael gwybodaeth a digon annirnad oedd cymhlethdodau gwleidyddol Rwsia. Prin fu'r adroddiadau yn y wasg Gymreig am yr ail chwyldro, llawer mwy arwyddocaol, a ddigwyddodd ar 23 Hydref (5 Tachwedd yn y Calendr Arddull Newydd) pan gipiwyd adeiladau allweddol yn Petrograd gan garfanau o Folsiefigiaid hynod drefnus a'u cynghreiriaid. Dymchwelwyd y llywodraeth a chyhoeddwyd sefydlu gweriniaeth Sofietaidd newydd. Yn wyneb cynnydd milwrol chwim o du'r Almaen, cyhoeddodd Rwsia ddiwedd ar y rhyfela ac ym mis Mawrth 1918, arwyddwyd cytundeb heddwch cosbol Brest-Litovsk â'r Almaen, gan alluogi'r Almaen i adleoli'i byddinoedd i'r Ffrynt orllewinol, gan fygwth ymdrech ryfel y Cynghreiriaid yn fawr iawn.

Perswadiwyd llywodraethau'r Gorllewin, o ganlyniad i lofruddio'r Teulu Brenhinol, sibrydion am erledigaeth ar raddfa eang ac adfeddiannu eiddo preifat, a llawer o hwnnw'n eiddo Prydeinig, fod Rwsia Folsiefigaidd yn fwy o fygythiad na'r Almaen. Er bod y rhyfel yn dal i fynd ymlaen, anfonwyd lluoedd milwrol a llyngesol o sawl gwlad, gan gynnwys Prydain, Ffrainc, yr Unol Daleithiau a Chanada, ynghyd â miloedd o wirfoddolwyr, i Rwsia i gefnogi'r lluoedd gwrth-Folsiefig. Parhaodd yr ymyriad hwn dros dair blynedd gan ddwyn bywydau 529 o filwyr Prydeinig a Dominiwn; ceir hyd heddiw yn Rwsia ddwy fynwent ryfel o'r cyfnod hwnnw i'r Cynghreiriaid. Er na chymerodd yr un uned Gymreig ran, cafwyd clwyfedigion o Gymru ac enillodd sawl milwr o Gymru wobrau milwrol yng Ngogledd Rwsia, gan gynnwys Croes Fictoria. Mae sawl cofeb ryfel yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn nodi'r dyddiad terfyn o 1919, i gydnabod yr aberth honno. Ar yr un pryd, parodd yr ymyriad i brotestio a streicio ddigwydd, a threfnwyd ymgyrch 'Gadewch Rwsia i Fod' gan undebau llafur, er mwyn atal ymwneud lluoedd arfog Prydain, a dynnwyd yn ôl yn y pen draw.

Cafodd Chwyldroadau Rwsia effaith rymus ar y rheiny a'u profodd, hyd yn oed o bellter. Un o'r cynadleddwyr yng nghynhadledd Abertawe oedd James Griffiths, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ddiweddarach, a oedd ar y pryd yn ysgrifennydd Cyngor Undebau Rhydaman, a ddisgrifiodd y digwyddiadau ym mis Chwefror fel 'gwawr newydd'. Serch hynny, fel un arall oedd yn frwd ar y pryd, Aneurin Bevan, nid oedd ef byth wir o ddifrif am chwyldro ym Mhrydain, yn enwedig ar ôl Chwyldro Hydref. Troediodd eraill lwybr amgen, megis yr ymgyrchydd heddwch, y Parchedig T. E. Nicholas, a ymunodd â'r Blaid Gomiwnyddol a chefnogi cyfundrefn y Sofietiaid hyd ddiwedd ei oes hir. Ac eto, hyd yn oed os na ddaeth chwyldro i Brydain, ac na lwyddodd Comiwnyddiaeth, nid oes unrhyw amheuaeth fod digwyddiadau Rwsia yn 1917 wedi newid y cyd-destun gwleidyddol yng Nghymru a Phrydain am ddegawdau wedyn, a dyna rywbeth arall i'n hatgoffa o etifeddiaeth hirhoedlog ac annisgwyl y Rhyfel Byd Cyntaf.

**(chwith) Poster Chwyldro Rwsia gyda'r geiriau "Y Fyddin Goch i Amddiffyn Chwyldro'r Werin." © IWM (Q 70861)**

**(ail o'r chwith) T. E. Nicholas. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

**(ail o'r dde) Vladimir Ilyich Ulyanov (Lenin) (22 Ebrill 1870 - 21 Ionawr 1924)**

**(dde) Chwyldroadwyr yn tynnu creiriau olaf y Cyfundrefn Imperialaidd o flaen yr adeiladau swyddogol, Petrograd, 6 Tachwedd 1917. © IWM (Q 69406)**

**(isod) Milwr yn gwisgo'r rhuban goch o amgylch ei fraich i ddynodi ei deyrngarwch i'r Chwyldro Bolsiefigaidd. © IWM (Q 69410)**



# Edward Thomas a David Jones

## Arwydd o gryfder parhaus y traddodiad llenyddol Cymraeg yw mai yn Llundain y ganwyd y ddau fardd Cymreig pwysicaf a fu'n ysgrifennu yn Saesneg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.


Ganwyd Edward Thomas (1878–1917) i rieni Cymreig, ac mae cwmpas ei ddylanwad, a swmp ei gyfansoddiadau am famwlad ei gyndeidiau, yn peri ei fod yn llais pwysig ym maes hanes llenyddiaeth Saesneg Cymru.

Egyr ei gerdd 'At the Team's Head-Brass' gyda byd natur mewn modd adfywiol, wrth i 'ddau gariad' ddiflannu i'r goedwig. Ond seinir tôn fygythiol ar unwaith wrth i geffylau'r gyrrwr gwedd droi, ac:

**'Yn lle gwasgu i lawr arnaf,**
**pwysodd y gyrrwr gwedd**

**Ar gyrn yr aradr i dorri**
**gair neu holi.'**

**['Instead of treading me down, the ploughman leaned. Upon the handles to say or ask a word'.]**




Deffroir y syniad am Ryfel yn 'gwasgu i lawr / [treading down]', a sgwrs rhwng y gyrrwr gwedd a milwr, sydd ar saib o'r Ffrynt efallai, yw'r gerdd. Adlewyrchir effaith y rhyfel ar fywyd cefn gwlad gan y ffaith fod y gwaith o dorri llwyfen i lawr yn cael ei ohirio am gyfnod amhenodol, am fod y dynion a fyddai wedi gwneud y gwaith wedi mynd.

Mae datblygiad y gerdd yn ddibynnol ar dro'r aradr: mae gan y llefarydd safbwynt realistig o'r rhyfel a'r tebygrwydd na ddaw allan ohono'n ddi-graith. Treiddia effaith y rhyfel yn ddwfn i'r bywyd gwledig a oedd yn bwnc a archwiliwyd gan Thomas yn ei waith. Bu farw ymhell o'r tir hwnnw, o ganlyniad i siel yn ffrwydro yn Arras adeg y Pasg 1917.

Yn yr un modd â Thomas, ganed David Jones (1895-1974) yn Llundain ond profodd gyfnod fel preifat gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ar y Ffrynt Orllewinol. Roedd natur ei linach Gymreig ac elfennau Cymreig o hanes Prydain yn bynciau canolog yn ei waith. Mae ei gerdd ryddiaith hir, arloesol, am y Rhyfel Byd Cyntaf, *In Parenthesis* (1937), yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg. Mae Dai Greatcoat, y ffigwr canolog, yn enwog am ei fod yn arfer ei Saesneg â gofal dieithryn ['articulates his English with alien care'] a cheir eiliadau pan drawsnewidir y ffosydd yn ardaloedd o Gymru, yn nychymyg aflonydd, gwladgarol Dai ac Arthur Lewis.

Mae'r math hwn o wrthosod anghymharus yn rhan o arddull eironig Jones. Wrth ddarlunio'r gymysgedd o Gymry, Cocnis ac



David Jones. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Iddewon oedd yn y gatrawd, mae'n pwysleisio gwahaniaethau ieithyddol a thafodieithol, gan gyfeirio at yr hiliau gwahanol sy'n cydgymysgu yn y ffosydd.

Ymddengys fod gan y 'genuine Taffies' arwyddocâd sylweddol yn y byd hwn o gymeriadau ymylol, sy'n gymysg oll i gyd o ran rhyw a hil. Mae gan y Cymry iaith sy'n eu dwyn yn ôl i'r Gododdin, cerdd sydd, oherwydd iddi gael ei hysgrifennu yng 'ngogledd Prydain' (ymadrodd Jones) yn ein 'cysylltu ag undod a chyfuno hiliau hynafol iawn; â'r Ynys yn etifeddiaeth gorfforol, gan gofio Rhufain fel undod Ewropeaidd'.

Ar gefnlen o erchyllterau'r rhyfel try Jones at ei Gymreictod fel sail i ailadeiladu'r undod y mae'n dyheu amdano. Tra bo gwaith Edward Thomas yn cael ei nodweddu gan brudd-der mewnol a gysylltir ganddo mewn dull rhamantaidd â hen wlad ei rieni, mae David Jones yn tynnu ar brofiad y Rhyfel Byd Cyntaf i archwilio mewn dull dwfn, sy'n ymylu ar fod yn archeolegol, y llinynnau diwylliannol sydd wedi cyfrannu at greu Cymru fodern ym Mhrydain.

Edward Thomas. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

# Hedd Wyn a Chynan

## Ar 31 Gorffennaf 2017 byddwn yn cofio nid yn unig un o brif gerrig milltir llenyddiaeth Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf ond hefyd ddigwyddiad sydd wedi ymsefydlu'n rhan o hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif.



Hedd Wyn. Trwy garedigrwydd Archifdy Prifysgol Bangor

Ganrif union i'r diwrnod hwnnw y bu farw'r Preifat Ellis Humphrey Evans (1887–1917) o Drawsfynydd, Sir Feirionnydd, gŵr sy'n fwy cyfarwydd i bobl fyth oddi ar hynny fel Hedd Wyn. Dyma'r bardd o gefndir amaethyddol cyffredin y dyfarnwyd iddo'r Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw ym mis Medi a'r creadur wedi ei ladd yn y rhyfel dros fis ynghynt.


Ond er ei theitl, cyfeiriadau alegorïaidd yn unig at y rhyfel sydd yn awdl 'Yr Arwr' ac ni chafodd Hedd Wyn gyfle i ysgrifennu nemor ddim cerddi wedi eu seilio'n uniongyrchol ar ei brofiad milwrol. Felly er mai ef yw'r bardd Cymraeg a uniaethir gyntaf â'r rhyfel, nid ef yw'r un mwyaf arwyddocaol.

Gŵr arall sy'n hawlio'r clod hwnnw, un a fedyddiwyd yn Albert Evans Jones (1895–1970) ond sy'n fwy cyfarwydd i'w gyd-Gymry fel Cynan. Yn 1916, ymunodd gydag uned o'r RAMC a godwyd yn arbennig ar gyfer myfyrwyr diwinyddol, a'i gael ei hun ym Medi'r un flwyddyn ym Macedonia yng ngogledd Groeg. Tra oedd yno ordeiniwyd ef yn weinidog a'i benodi'n gaplan, a chyn diwedd y rhyfel, gwasanaethodd gyda'r fyddin yn Ffrainc.

O'r profiad hwn y deilliodd y cerddi a gasglodd ynghyd yn y gyfrol *Telyn y Nos* yn 1921 gydag amryw ohonynt – fel 'Anfon y Nico i Lan Dŵr' a 'Hwiangerddi' – yn cyferbynnu rhwng ei brofiadau ar y pryd, wedi ei adleoli dramor, a'i atgofion am ei gynefin a'i geraint yn ôl yng Nghymru. Mae'r un gyfrol hefyd yn cynnwys y faled 'Mab y Bwthyn' a enillodd i Cynan ei Goron genedlaethol gyntaf yn yr un flwyddyn. Gellid dadlau mai dyma'r bryddest fwyaf poblogaidd erioed i ennill y wobr honno, ac mae hi'n tynnu ar brofiad llanc cyffredin o Lŷn sy'n wynebu profiadau mawr yn y fyddin ac yn goroesi i adrodd yr hanes. Rhan o'r rheswm dros lwyddiant ac apêl y cerddi hyn yw fod Cynan wedi llwyddo ynddyn nhw i gyfleu mewn modd mor afaelgar a hygyrch, realaidd a hiraethus, y profiad o ryfel modern i aelodau o'r lluoedd arfog a hefyd sifiliaid yr un pryd.

Os ydym am gael gweld sut y daethpwyd o hyd i eiriau ar gyfer cenhedlaeth 1914–18 a'u profiadau cymysg a newydd ym marddoniaeth y cyfnod, at gerddi Cynan y dylem droi gyntaf.

(isod) Cynan. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru



# Heddlu De Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf



Cofeb Ryfel Heddlu Morgannwg. Trwy garedigrwydd Gareth Madge

**Daeth Heddlu De Cymru i fodolaeth yn 1969 ar ôl uno lluoedd heddlu Morgannwg, Caerdydd, Abertawe a Merthyr. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd y lluoedd hyn, ynghyd â Heddlu Bwrdeistref Castell-nedd, a unodd â Morgannwg yn 1947, yn gyfrifol am gadw trefn yn yr ardaloedd a ddaeth yn eu tro dan ofal Heddlu De Cymru.**

Cafodd y rhyfel effaith sylweddol ar waith yr heddlu. Daeth heddweision yn allweddol ar gyfer eu recriwtio i'r lluoedd arfog. Anogid Prif Gwnstabliaid i ryddhau gwŷr i wasanaethu ac aeth rhai cannoedd o'r lluoedd a enwyd uchod i listio. Roedd y Capten Lionel Lindsay, Prif Gwnstabl Morgannwg, yn arbennig o gefnogol i'r Gwarchodlu Cymreig, a ffurfiwyd yn 1915.

Am fod cynifer wedi gadael i fynd i'r rhyfel, rhoddwyd pwysau sylweddol ar yr heddweision oedd ar ôl. Roedd nifer o reoliadau newydd i'w gorfodi, sefydliadau allweddol i'w gwarchod a phobl o dramor, yn enwedig rhai o genhedloedd y gelyn, i ddelio â nhw. Adlewyrchwyd effaith y rhyfel ymhellach yn nifer yr heddweision a fu farw neu a anafwyd. Eu haberth hwy oedd yr ysgogiad i sefydlu Grŵp Prosiect yn 2014 gan Heddlu De Cymru i ymchwilio i hanesion y rhai a oedd wedi gwasanaethu. Ers hynny:

- Casglwyd gwybodaeth yn ymwneud â'r 93 o heddweision a fu farw, y cofnodir enw llawer ohonynt ar Gofeb Ryfel Heddlu Morgannwg ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac ar feini coffa neu blaciau ar gyfer lluoedd Caerdydd, Abertawe a Merthyr.
- Cynhyrchwyd llyfrynnau ar gyfer 1914 a 1915 yn cynnwys bywgraffiadau'r rhai a fu farw. Cynhyrchir llyfrynnau pellach ar gyfer pob un o'r blynyddoedd sy'n weddill o ddathliadau'r canmlwyddiant ynghyd ag eraill ar bynciau penodol. Gellir gweld y llyfrynnau hyn ar wefannau Heddlu De Cymru (http://www.south-wales.police.uk/en/about-us/museum/first-world-war-centenary/) a Chasgliad y Werin Cymru (https://www.peoplescollection.wales/users/9665).
- Gosodwyd croesau coffa ar feddau heddweision yng Nghymru, Lloegr, Ffrainc a Gwlad Belg. Gosodwyd torchau yn ogystal ar gofebau Thiepval, Clwyd Menin a Loos ac ar Gofeb y Ddraig Goch yng Nghoedwig Mametz. Coffawyd 80 o heddlu i gyd yn y dull hwn.

# Ymysg hanesion pobl nodedig y mae:



Is-gapten Ernest James Rollings, MC.
Trwy garedigrwydd Mrs Anne Day

Ernest James Rollings: heddwas gyda llu Morgannwg a wasanaethodd yn ddiweddarach gyda Heddlu Castell-nedd. Bu'n gyfrifol am danc yn Nhrydedd Frwydr Ypres yn 1917 a rhoddwyd y Groes Filitaraidd iddo am ei ddewrder yn y frwydr. Yn ddiweddarach, gwasanaethodd gyda Chorfflu'r Tanciau ym Mrwydr Cambrai yn 1917. Ym mis Awst 1918 roedd yn gyfrifol am adran o gerbydau arfog yn ystod Brwydr Amiens, a llwyddodd i adfer mapiau a dogfennau hynod gyfrinachol gan yr Almaenwyr yn ystod cyrch mentrus ar un o'u pencadlysoedd. O ganlyniad i'r weithred honno cafodd ail Groes Filitaraidd. Yn ystod y 1930au, o ganlyniad i ddiddordeb o du'r wasg yng nghyrch 1918, daeth yn arwr cenedlaethol a ddisgrifiwyd fel 'Y Dyn wnaeth Ennill y Rhyfel'. Derbyniodd Ryddfraint Bwrdeistref Castell-nedd, a chyflwynwyd siec am £5000 iddo yn rhodd gan y Fonesig Houston yn gydnabyddiaeth o'i ddewrder. Er gwaethaf cael anaf difrifol, dychwelodd at yr heddlu ar ôl y rhyfel, ac roedd yn Brif Gwnstabl gweithredol Castell-nedd pan ymddeolodd yn 1943.



Uwch-ringyll Richard 'Dick' Thomas.
Trwy garedigrwydd Richard Thomas

Dick Thomas: lladdwyd y cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol dros Gymru a'r heddwas gyda llu Morgannwg mewn brwydro yng Nghoedwig Mametz ar 7 Gorffennaf 1916, tra'n gwasanaethu fel Uwch-ringyll y Cwmni gyda Bataliwn Dinas Caerdydd yn y Gatrawd Gymreig. Yn 2015 agorwyd adeilad, a ddefnyddir ar y cyd gan Heddlu De Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sir Pen-y-bont ar Ogwr, gan y Prif Weinidog a'i enwi'n Dŷ Richard Thomas er anrhydedd iddo.



Rhingyll Frederick William Mallin.
Penarth Times, 13 Ebrill 1916

Frederick William Mallin: heddwas gyda llu Morgannwg a oedd yn un o'r ddau gyntaf i dderbyn y Fedal Filwrol, a sefydlwyd yn 1916, ac a roddwyd iddo o ganlyniad i'w weithredoedd yn ystod bomio Hartlepool gan Lynges yr Almaen yn 1914. Goroesodd y rhyfel a dychwelodd i wasanaeth yr heddlu.



Frederick William Smith: Arolygydd gyda Heddlu Morgannwg a ddaeth yn lefftenant-cyrnol ac a arweiniodd Fataliwn Dinas Caerdydd o 1916 ymlaen, yng Nghoedwig Mametz, Cefn Pilckem ac mewn lleoedd eraill. Dyfarnwyd y DSO iddo, a dychwelodd at yr heddlu, gan godi i fod yn uwch-arolygydd, a phan ymddeolodd, ef oedd Dirprwy Brif Gwnstabl Morgannwg.

Lefftenant-Cyrnol Frederick William Smith.
Trwy garedigrwydd Amgueddfa Heddlu De Cymru

Bydd gwaith y Grŵp Prosiect yn parhau hyd at ddiwedd cyfnod coffa'r canmlwyddiant. Mae Heddlu De Cymru'n falch iawn o ddewrder ac aberth pob un o blith ei lluoedd treftadaeth a wasanaethodd yn ystod y Rhyfel.

Yn angof ni chânt fod.

# Rygbi Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf

**Fyddwn ni byth yn gwybod sawl chwaraewr rygbi o Gymru fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymatebodd chwaraewyr y campau o bob cwr o Gymru â brwdfrydedd i'r alwad i fynd i ymladd, ac ataliodd Undeb Rygbi Cymru bob gêm glwb drwy gydol y rhyfel.**

Er na ddaeth ymdrech URC i lunio rhestr goffa o chwaraewyr clybiau byth i ben ar ôl y rhyfel, gwyddom fod tri ar ddeg o chwaraewyr rygbi rhyngwladol i Gymru wedi marw wrth wasanaethu – pob un yn wirfoddolwr. Dengys bywydau'r dynion hyn, a anwyd mewn rhannau gwahanol o Gymru a'u magu mewn cyd-destun economaidd ac addysgol amrywiol, yr agweddau gwahanol iawn a welwyd yng nghymdeithas Cymru cyn y rhyfel, yn ogystal â natur gymdeithasol ddemocrataidd rygbi Cymru. Roedd pob un o'r rhain hefyd yn bencampwyr mewn campau eraill yn ogystal. Maent, felly, yn gynrychiolwyr cenhedlaeth gyfan o Gymry a aeth i ryfel.

Erbyn 1917 roedd naw o'r tri ar ddeg eisoes wedi colli'u bywydau a thrist nodi y byddai tri arall yn marw yn ystod y flwyddyn honno. Achos pennaf marwolaeth yn y rhyfel oedd y magnelau, nid gynnau peiriant na nwy, a sieliau a ffrwydrodd yn union y tu ôl i'r llinell flaen a achosodd farwolaeth y tri chwaraewr rhyngwladol o Gymru a fu farw yn 1917.


Y cyntaf oedd Brinley Richard Lewis, chwaraewr dros Abertawe a ddaeth o Bontardawe, a addysgwyd yn Ysgol Ramadeg Abertawe a Phrifysgol Caergrawnt, ble enillodd dri chap rygbi Glas. Ac yntau'n asgellwr disglair, cafodd ddau gap dros Gymru yn 1912 ac 1913, a phan listiodd, roedd yn gweithio fel clerc erthyglog i gyfreithiwr yn Abertawe. Goroesodd Goedwig Mametz, ac roedd 'Bryn' yn uwchgapten ym Mrigâd Frenhinol y Gynnau Maes 122, Adran (Gymreig) 38ain, a oedd yn cadw'r llinell yn Ymwthiad Ypres gyferbyn â Chefn Pilckem. Ar fore 2 Ebrill 1917, roedd yn cael ei frecwast y tu ôl i linellau'r gynau ger Boesinghe, pan ddaliwyd ef gan siel gyflym iawn a'i ladd ar unwaith.

Yr ail un a gollwyd oedd David Westacott, gweithiwr gwydn ar y dociau o Drelluest a chwaraeodd fel blaenwr i Gaerdydd am saith tymor, yn ystod un o gyfnodau mwyaf llwyddiannus y clwb. Enillodd un cap i Gymru yn 1906.



**(dde) Lefftenant Philip Dudley 'Phil' Waller. The Rugby Football Internationals Roll of Honour 1914–18 gan E. H. D. Sewell (cyh. T. C. & E. C. Jack 1919)**

Er gwaetha'r ffaith fod ganddo deulu, listiodd yn fuan yn y rhyfel a gwelodd lawer o frwydro, gan gynnwys brwydrau Cefn Aubers, Loos a'r Somme, ble cafodd ei anafu'n ddrwg. Ar 28 Awst 1917, ac yntau'n gwasanaethu fel preifat ym Mataliwn 2/6ed Catrawd Caerloyw yn ystod Trydedd Frwydr Ypres, cafodd ei ladd mewn ffos gymorth ger Wieltje gan siel a daniwyd ar hap ar ddiwrnod a gofnodwyd fel un 'tawel'. Bob blwyddyn ar 10 Tachwedd – pen-blwydd diwedd Trydedd Frwydr Ypres – bydd pobl Passchendaele yn coffáu pawb a fu farw yno drwy gofio am fywyd tri o'r ymladdwyr – un o Brydain, un o Ganada ac un o'r Almaen. Yn 'Seremoni Passchendaele' 2015, dewiswyd y dociwr 'Dai' Westacott i gynrychioli holl wŷr Byddin Prydain a fu farw yn y frwydr erchyll honno.



Cofeb ryfel Undeb Rygbi Cymru yn Stadiwm Principality. © Undeb Rygbi Cymru

Bu farw Philip Dudley Waller ar ôl Brwydr Cambrai, a fethodd â chyflawni'r newid y gobeithiwyd amdano, yn union fel Trydedd Frwydr Ypres. Ganed Phil yng Nghaerfaddon a'i fagu yn Llanelli, ble'r aeth i'r Ysgol Ganolraddol. Ymunodd â chlwb rygbi Casnewydd ar ôl derbyn swydd fel peiriannydd yn Nociau Casnewydd. Dim ond pedair ar bymtheg oed ydoedd pan enillodd y cyntaf o'i chwe chap i Gymru fel blaenwr; ni fu Phil erioed yn rhan o dîm Cymru a gollodd gêm ac roedd yn aelod o dîm y Gamp Lawn yn 1908–9. Ar ôl teithio gyda'r Llewod i Dde Affrica yn 1910 – pan chwaraeodd mewn dau ddeg tri o'r dau ddeg pedwar o gemau – arhosodd yn y wlad honno. Yn y cyd-destun hynny felly y gwasanaethodd yn y rhyfel gyda Magnelfa Warchae'r 71ain (De Affrica), Garsiwn Frenhinol y Canonau. Ymladdodd ar y Somme yn 1916 a thrwy gydol 1917, pan gafodd gomisiwn yn y maes am wasanaeth clodwiw. Ar ôl ymladd yn Cambrai, roedd Lefftenant Waller ar ei ffordd adref am hoe ar 14 Rhagfyr 1917. Roedd newydd gychwyn ar ei daith i'r orsaf reilffordd pan drawyd ei gar gan siel hap ger Bapaume ac fe'i lladdwyd ef a'i gyd-deithiwr.

Roedd pob un ohonynt yn ysglyfaeth i'r athreuliad achlysurol a oedd yn rhan o brofiad beunyddiol bywyd ar y Ffrynt Orllewinol yn 1917. Fel pob un o'r chwaraewyr rygbi rhyngwladol o Gymru a fu farw yn ystod y rhyfel, roedd y tri Chymro ymroddedig a dawnus iawn hyn wedi cyflawni llawer iawn yn eu bywydau personol ac fel pencampwyr, a bu eu marw'n golled enbyd i gymdeithas Cymru.

Claddwyd Brinley Lewis ym mynwent Ferme-Olivier, Elverdinge, Gwlad Belg.

Coffeir David Westacott ar Gofeb Tyne Cot i'r rhai a Gollwyd, Zonnebeke, Gwlad Belg.

Claddwyd Philip Waller ym mynwent Cornel y Groes Goch, Beugny, Ffrainc.





(chwith) Uwchgapten Brinley Richard 'Bryn' Lewis. The Rugby Football Internationals Roll of Honour 1914–18 gan E. H. D. Sewell (cyh. T. C. & E. C. Jack 1919)
(dde) Preifat David Westacott. The Rugby Football Internationals Roll of Honour 1914–18 gan E. H. D. Sewell (cyh. T. C. & E. C. Jack 1919)

# Yn ystod y can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu i'r ymchwil am heddwch?

CYMRU DROS HEDDWCH
WALES FOR PEACE





Craig Owen yw Pennaeth prosiect 'Cymru dros Heddwch' Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, sy'n archwilio sut y bu i erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf ysbrydoli rhai fu'n ymladd a heddychwyr fel ei gilydd i gydweithio er mwyn creu byd gwell – gyda gwersi ingol ar gyfer rôl Cymru yn y byd heddiw.

Codwyd Teml Heddwch Caerdydd yn gartref i Lyfr Cofio Cenedlaethol y Rhyfel Byd Cyntaf, y rhestr o 35,000 'o enwau dynion a merched a anwyd yng Nghymru ac a oedd â rhieni Cymreig, ac o'r holl ddynion oedd yn perthyn i gatrawdau Cymru a gollodd eu bywydau yn y rhyfel'.

**'Gweddïwn y bydd (y Deml hon) yn dod i gael ei hystyried gan bobl ein gwlad ... yn symbol o'n penderfyniad i ymdrechu am gyfiawnder a heddwch yn y dyfodol.'**


(uchod) Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi bod yn ymrwymo gwirfoddolwyr ledled y wlad mewn 'gweithred ddigidol o goffadwriaeth'– trawsgrifio'r llyfr (chwith) fel y bydd yn hygyrch ac y gall cenedlaethau'r dyfodol droi ato ar-lein.

(isod) Rhan o Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymreig Undeb Cynghrair y Cenhedloedd am 1927, a ddarganfuwyd gan wirfoddolwyr CMRhC yn Llyfrgell y Deml Heddwch yn 2016. © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru



(uchod) Llyfr Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
© Archif Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Dyma eiriau Minnie James o Ddowlais, mam alarus a gollodd dri mab yn y Rhyfel Byd Cyntaf, wrth iddi agor drysau'r Deml. Aeth adran Gymreig Undeb Cynghrair y Cenhedloedd rhagddi i chwarae rôl flaenllaw yn yr ymdrech am heddwch.



WELSH EFFORTS FOR WORLD PEACE,
1920–1927.

The CHILDREN OF WALES were the first to send by Wireless a greeting of goodwill to all other children in every land under the sun.

The WOMEN OF WALES were the first to send a message of Peace from the homes of one people to the homes of another.

The TEACHERS OF WALES were the first to teach the principles of the League of Nations in the schools.

The CHURCHES OF WALES were the first to make an annual offering in furtherance of World Peace.

LEADERS OF RELIGION IN WALES were the first to present a Memorial to Leaders of Religion in America on behalf of the League of Nations.

The Welsh National Council of the League of Nations Union makes its appeal for still further support to help Wales to become, more and more, a Missionary Nation for Peace amongst all the Peoples of the World.

# Arddangosfeydd teithiol a rhaglenni digwyddiadau

Drwy weithio gyda grwpiau ledled Cymru, mae WCIA wedi datblygu tair arddangosfa deithiol sy'n anelu at ysgogi archwiliad cymunedol ac ymateb i:

**Cofio er mwyn Heddwch:** Drwy gyfrwng Llyfr Cofio Cymru, drwy archwilio hanesion milwyr ac effaith y rhyfel a'r golled i gymunedau lleol Cymru (Arberth, Chwefror – Ebrill 2017; Ynys Môn, Mai – Awst 2017).

**Cred a Gweithred:** Archwilio gwrthwynebiad i ryfel, cwestiynau ynglŷn â chydwybod a dewis bryd hynny a heddiw, a hanesion y tu ôl i'r enwau yng Nghofrestr Pearce o Wrthwynebwyr Cydwybodol.

**Heddwch ac Ewyllys Da:** Archwilio dyheadau, gobeithion a breuddwydion pobl ifanc drwy Neges Heddwch ac Ewyllys Da Rhyngwladol Ieuenctid yr Urdd, a ddarlledwyd bob blwyddyn ers 1922.

Yn ogystal ag adeiladu ar y themâu hyn, rydyn ni'n chwilio am bartneriaid a gwirfoddolwyr cymunedol i helpu i ddatblygu cynnwys newydd ar gyfer arddangosfa leol a mannau cyfarfod cymunedol, gan archwilio:

**Merched – Pabïau, Rhyfel a Heddwch:** Hanesion merched a mudiadau a fu'n flaenllaw wrth ymateb i ryfel a gweithio i sicrhau heddwch, o'r byd-eang i'r lleol. Bydd hyn yn cael ei arddangos yn rhan o ymwneud WCIA â'r arddangosfa Pabïau: Weeping Window yn y Senedd yn Awst – Medi 2017.


**Ffoaduriaid a Noddfa:** O Felgiaid i Fasgiaid hyd Syriaid heddiw, mae pobl a ddadleolwyd gan wrthdaro drwy'r blynyddoedd wedi chwilio am noddfa ac wedi cyfrannu'n helaeth at gymdeithas Cymru.

**Cydgefnogaeth Ryngwladol:** O'r 1920au hyd heddiw, mae mudiadau ymgyrchol, cydwladol a blaenllaw Cymru – o Gynghrair y Cenhedloedd hyd at CND, Gwrth-Apartheid a Chysylltiadau Affrica Cymru – wedi ffurfio ein cysylltiadau â'r byd.

**Er mwyn rhoi cartref i arddangosfa neu i ddatblygu rhaglen o weithgareddau cymunedol ar unrhyw un o'r themâu hyn, cysylltwch â: walesforpeace@wcia.org.uk**





Montage o negeseuon Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd a arddangoswyd yn Oriel Pendeitsh, Gwynedd, Hyd-Tach 2016. © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru



**Treftadaeth Heddwch Cymunedol**
Mae WCIA a phartneriaid yn cefnogi grwpiau cymunedol i archwilio a rhannu eu 'hanesion cudd' eu hunain am eu treftadaeth rhyfel a heddwch. Daeth Llwybr Heddwch Caernarfon (nawr ar gael fel ap ffôn clyfar o siopau Apple ac Android), ag ystod o grwpiau cymunedol a hanesion cudd nad oedd llawer yn gwybod amdanynt cyn hynny at ei gilydd.

Ysbrydolodd hyn ailgread o Bererindod Heddwch Merched Gogledd Cymru (isod) i nodi Diwrnod Heddwch y Byd (21 Medi), a gellir bellach weld plac coffaol ar Ochr y Cei yng Nghaernarfon.








Delweddau © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru



(uchod ac isod) Disgyblion o Ysgol Tryfan yng Nghastell Caernarfon. © Ysgol Tryfan, Bangor

# Ysgol Tryfan, Bangor

## Roedd yn ddiwrnod o Orffennaf ychydig bach yn llaith yng Nghaernarfon ond nid oedd y tywydd yn ddigon i amharu ar brofiadau disgyblion Ysgol Tryfan!



Cafodd tua 150 o ddisgyblion o Flwyddyn 7 a Blwyddyn 8 brofiadau cyffrous iawn wrth fynychu gweithdy a ddarparwyd gan Amgueddfa y Ffiwsilwyr Cymreig, sydd wedi ei lleoli y tu mewn i gastell Caernarfon. Cafodd pob disgybl gyfle i drin arteffactau gwreiddiol o'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal â chyfle i brofi bywyd fel milwr cyffredin dan arweiniad y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, ac ail-greu'r gorffennol drwy chwarae rôl.

Yn ystod y flwyddyn ysgol ddilynol, aeth y disgyblion a fynychodd y gweithdai yng Nghaernarfon ymlaen i rannu ac ehangu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r profiadau. Daethant yn ymwybodol o gyfraniad enfawr pobl Bangor i'r Rhyfel Byd Cyntaf, a'i werthfawrogi. Mewn cydweithrediad â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig mae grwpiau o ddisgyblion Blwyddyn 7 (dan arweiniad Blwyddyn 9) bellach wedi cychwyn ar y broses o greu adnodd seiliedig ar y llyfr Cofio'r Dewrion, â'r nod o ychwanegu at yr adnodd yn ystod y ddwy flynedd nesaf, hyd nes bod troslais a delwedd pob milwr / morwr wedi eu cwblhau. Caiff yr adnodd hwn ei rannu gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a phan fydd wedi'i gwblhau bydd yn cael ei roi ar y rhyngrwyd drwy wefan yr ysgol.

Bydd ysgolion cynradd lleol hefyd yn cael y cyfle o rannu profiadau a gwybodaeth yn ystod ymweliadau a nosweithiau agored. Bydd disgyblion blwyddyn 9 yn y flwyddyn ysgol 2016–2017 yn cael y cyfle i lwytho gwybodaeth am filwyr Bangor sydd wedi cael ei chasglu eisoes ar wefan ac app Cymru yn y Rhyfel.
www.walesatwar.org/site/home

Dywedodd Meurig Jones, Pennaeth Hanes Ysgol Tryfan, 'Mae deilliannau'r gweithgareddau hyn yn sicr wedi ychwanegu at gynnal dealltwriaeth a diddordeb y disgyblion ym mhwysigrwydd cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan osod sylfaen gadarn at ehangu ar yr astudiaethau hyn yn y blynyddoedd i ddod. Cyflawnodd y prosiect hwn holl amcanion y cynnig gwreiddiol.'

# Ysgol Gyfun y Bont-faen

## Ddechrau mis Gorffennaf, penderfynodd y Pennaeth roi amserlen gwersi Cyfnod Allweddol 3 yr ysgol o'r neilltu am ddiwrnod i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.


Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn wrth i'r Adran Hanes lwyddo i gynnwys pob adran yn y gweithgarwch, o'r Adran Saesneg i'r Adran Addysg Gorfforol.

'Cafodd pob disgybl Cyfnod Allweddol 3, sef tua 670 o ddysgwyr, bedair gwers a oedd yn seiliedig ar wahanol agweddau ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnaeth yr Adran Saesneg ganolbwyntio ar farddoniaeth, a gwnaeth yr Adran Gelf ganolbwyntio ar ystyr celf a gynhyrchwyd wrth ymladd mewn ffosydd. Gwnaeth ein hadrannau ymarferol gynnig gweithgareddau o greu medalau coffa i bobi cacennau gan ddilyn ryseitiau o gyfnod y rhyfel.'

Roedd y fwydlen ginio hefyd yn dilyn y thema wrth i staff y ffreutur ymuno yn ysbryd y diwrnod drwy gynnig 'cawl Kitchener' a 'Selsig mewn cytew – arddull tomi'. Wrth fwyta cinio, gwyliodd y disgyblion 'Oh! What a Lovely War'.

Uchafbwynt y diwrnod oedd gwasanaeth i'r ysgol gyfan a gynhaliwyd ar safle'r ysgol. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid: llywodraethwyr, rhieni a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol hon. Trefnodd yr Adran Moeseg ac Athroniaeth wasanaeth teimladwy iawn a gwnaeth llawer o ddisgyblion a staff gymryd rhan. Roedd yn canolbwyntio ar y bechgyn lleol sydd â'u henwau ar Gofeb Ryfel y Bont-faen. Daeth y gwasanaeth i ben yn sŵn trefniant yr Adran Gerddoriaeth o'r 'Caniad Olaf'.

'Fel ysgol, rydyn ni'n credu y bu'n brosiect aml-ddisgyblaethol a dysgu gweithredol gwerth chweil a bu'n gyfle amhrisiadwy i'n disgyblion iau ddysgu am y Rhyfel Byd Cyntaf a hanesion lleol.'



# Ffynonellau Cyllid - Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Os ydych yn cynllunio prosiect i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, dyma rywfaint o gyngor i chi ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall.**

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw'

Mae rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw' Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000 er mwyn i gymunedau goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae cyllid ar gael i helpu grwpiau, cymunedau a sefydliadau neu fudiadau i goffáu'r Canmlwyddiant drwy archwilio, gwarchod a rhannu treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf – o gofebau, adeiladau a safleoedd i ffotograffau, llythyrau a llenyddiaeth. Mae'n rhaglen dreigl, sy'n golygu y gallwch wneud cais unrhyw bryd, a bydd y ceisiadau a ddaw i law'n cael eu hasesu cyn pen wyth wythnos.

Ewch i'w gwefan ar gyfer ffurflenni cais, arweiniad ac esiamplau prosiectau http://cymraeg.hlf.org.uk neu ebost: cymru@hlf.org.uk.

## Rhaglen 'Ein Treftadaeth' – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Ein Treftadaeth' ar gyfer unrhyw fath o brosiect sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £100,000.

Croesewir ceisiadau gan sefydliadau neu fudiadau dielw, perchnogion preifat treftadaeth (gan gynnwys unigolion a sefydliadau neu fudiadau dielw) a phartneriaethau. http://cymraeg.hlf.org.uk.

## Gwreiddiau Ifanc – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Gwreiddiau Ifanc' ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cael pobl ifanc 11–25 oed i ymwneud â'u treftadaeth yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £50,000 i ariannu partneriaethau rhwng treftadaeth a sefydliadau neu fudiadau ieuenctid, er mwyn helpu pobl ifanc i lunio a gweithredu eu prosiectau eu hunain mewn amgylcheddau diogel. http://cymraeg.hlf.org.uk.

## Cadw, Grantiau ar gyfer Cofebau Rhyfel yng Nghymru

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, a bydd yn helpu i ddiogelu cofebau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau sy'n werth hyd at 70% o'r costau cymwys (hyd at uchafswm o £10,000) ar gael i warchod ac atgyweirio cofebau rhyfel.

Yn ogystal â'r cynllun hwn, mae Cadw hefyd yn cynnig grantiau eraill er mwyn cyfrannu at gostau atgyweirio ac adfer asedau hanesyddol, ac mae'n darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gaiff eu harwain gan gymunedau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, ewch i'r adran Cymorth, Cyngor a Grantiau ar wefan Cadw: www.cadw.wales.gov.uk.

## Yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel

Mae grantiau i atgyweirio a gwarchod cofebau rhyfel ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel.

Gall yr ymddiriedolaeth ddarparu cyngor hefyd ynghylch dulliau priodol o warchod cofebau www.warmemorials.org neu drwy ffonio 020 7233 7356.

## Cynllun Grantiau Cofebau

Gallai cymorth ychwanegol fod ar gael drwy'r cynllun hwn a gaiff ei redeg gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru a Lloegr, sy'n ad-dalu'r TAW y mae'n rhaid ei thalu wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebau. www.memorialgrant.org.uk

## Cynllun Grantiau Bach Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Dan y cynllun hwn caiff grantiau eu cynnig i Amgueddfeydd yng Nghymru ddwywaith y flwyddyn, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gefnogi prosiectau llai o faint. O 2017 bydd uchafswm cylch grant y gwanwyn yn cael ei gynyddu i £10,000, ac yng nghylch grant yr hydref £3,000 fydd yr uchafswm. Y gofyniad o ran cyllid cyfatebol fydd lleiafswm o 10% ar gyfer pob grant. Mae prosiectau llwyddiannus yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â gwaith gwarchod, darparu offer arbenigol, gwasanaeth allgymorth a chyfleoedd dysgu gydol oes, datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a darparu cyngor proffesiynol. Rhaid bod amgueddfeydd wedi'u Hachredu a rhaid eu bod wedi ymaelodi â'r Ffederasiwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r dudalen Grantiau ar y wefan ganlynol: www.welshmuseumsfederation.org.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Os oes dimensiwn diwylliannol neu artistig yn perthyn i brosiect, gallech chi wneud cais am gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru www.celfcymru.org.uk. Mae'r sefydliad hwn hefyd yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud cais am gyllid ac yn rhoi manylion nifer o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i sefydliadau neu fudiadau ac unigolion ym maes y celfyddydau.

## Ysgolion

Diolch i gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru, mae gan bob ysgol uwchradd yng Nghymru gyfle i wneud cais am hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Gall pob ysgol benderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny, a gallent weithio gydag ysgolion eraill hefyd ac ymgymryd â phrosiectau ar y cyd.

Os oes gan ysgolion ddiddordeb mewn cyflwyno cais, dylent anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol: FWWCommemorationGrant@Wales.gsi.gov.uk er mwyn cael pecyn i wneud cais am grant.

Yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus a restrir yma, mae'n bosibl y bydd elusennau preifat neu fusnesau masnachol yn barod i gefnogi prosiectau coffáu, yn enwedig os oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r elusen neu'r busnes.

Gellir cael cymorth ar-lein i ddod o hyd i gyrff sy'n cynnig grantiau ar www.grantnet.com ac mae'r Sefydliad Cymorth Elusennau yn cyhoeddi cyfeiriadur rheolaidd o ymddiriedolaethau sy'n cynnig cymorth grant. Mae'r cyfeiriadur ar gael yn aml mewn llyfrgelloedd lleol.

Dewch i ddarganfod mwy am y modd y mae Cymru yn coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac am ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan: www.cymruncofio.org.uk.

## Cynnwys digwyddiadau ar wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918

*Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 yw'r rhaglen swyddogol i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu'r Rhaglen, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff ledled Cymru a thu hwnt. Mae gwefan y Rhaglen yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth ar y newyddion, prosiectau a digwyddiadau diweddaraf.

I gynnwys eich digwyddiadau neu brosiectau ar wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, ewch i (http://www.cymruncofio.org/events/) neu (http://www.cymruncofio.org/projects/). Os ydych yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg ynghylch eich prosiect Rhyfel Byd Cyntaf yr hoffech eu hystyried ar gyfer gwefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, anfonwch nhw at (http://www.cymruncofio.org/get-in-touch/). I rannu eich digwyddiadau ar ein cyfrif Trydar copïwch at @cymruncofio.

## Dolenni Defnyddiol:

Gwefan: www.cymruncofio.org
Trydar: @cymruncofio
Gweplyfr: *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# Digwyddiadau

**Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff, unigolion neu grwpiau allanol. Mae'n bosib y bydd rhaid neilltuo lle neu dalu i gael mynediad i rai digwyddiadau. Cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol am fanylion pellach.**

## TACHWEDD 2013

### 28 Tach 2013 - 11 Tach 2018

**Lansiad Arddangosfa Ddigidol y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd**

Merthyr Tudful

http://merthyrww1.llgc.org.uk/en/items/show/13

Yn ystod digwyddiad yn Y Coleg Merthyr Tudful ar ddydd Iau, 28 Tachwedd lansiodd John Griffiths AC, y cyn Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, arddangosfa ddigidol Y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd, a grëwyd gan yr hanesydd Dr Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth.

Mae'r arddangosfa'n ymdrin â chyfres o ddigwyddiadau penodol ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon a hefyd yn ystyried sut gallwn goffáu'r gyfres amrywiol a dadleuol o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod 1914-18.

Mae'n amlygu ar brofiad dirdynnol bywyd yn y ffosydd ond mae hefyd yn sôn am y gwrthwynebiad i'r rhyfel a'i effaith ar fywyd y tu allan i'r fyddin. Mae'r 'Ymgyrch Gartref' yn rhan bwysig o'r arddangosfa. Tynnir sylw at sut newidiwyd bywydau menywod gan y rhyfel a sut gohebwyd ar ddigwyddiadau dadleuol megis streic y glowyr yn 1915. Mae hefyd yn taflu goleuni ar y 'bwgan ysbïo' 1914 a dyfodiad grwpiau o ffoaduriaid o Wlad Belg.

Bydd cyflwyniad ar-lein Dr O'Leary yn aros yng Ngholeg Merthyr Tudful er budd y staff a'r myfyrwyr. Mae'r arddangosfa'n defnyddio llawer iawn o ddeunyddiau a gafodd eu digideiddio fel rhan o'r archif ddigidol ar-lein Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig, gafodd ei lansio yn yr un digwyddiad (gweler http://www.cymruncofio.org/the-national-library-of-wales-launches-the-welsh-experience-of-the-first-world-war/).

Dywedodd y Gweinidog: "Ffrwyth cydweithio helaeth rhwng sefydliadau lleol a chenedlaethol yw'r arddangosfa ddigidol hon. Bydd yn helpu ein cymunedau i ddeall yn well effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'r newidiadau parhaus i'r gymdeithas yng Nghymru.

"Mae'n gyfraniad pellach i'r rhaglen eang i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru."

Datblygwyd Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig gan bartneriaeth wedi ei harwain gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gydag Archifau a Chasgliadau Arbennig Cymru (sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, BBC Cymru Wales, Casgliad y Werin Cymru a swyddfeydd archifau a chofnodion lleol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru sydd dan adain Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Ariannwyd y prosiect gyda chymhorthdal £500,000 o gynllun e-Gynnwys Jisc fel rhan o'i gwaith i gefnogi addysg ac ymchwil, a gyda chefnogaeth y sefydliadau sy'n bartneriaid.

## GORFFENNAF 2014

### 15 Gorff 2014 10:00yb - 31 Hyd 2018 4:30yp

**Arddangosfa: Cenhedlaeth Goll**

Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7ED

www.uwtsd.ac.uk

Arddangosfa o ddeunydd archif sy'n adrodd hanes Coleg Dewi Sant yn ystod y Rhyfel Mawr.

## AWST 2014

### 1 Awst 2014 - 11 Tach 2018

**Arddangosfa Deithiol - "Gwent yn y Rhyfel Mawr"**

Amryw leoliadau yng Ngwent

www.cymruncofio.org

Trefnwyd yr arddangosfa hon gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, ac mewn partneriaeth â IAALl ac Archifau Gwent.

Bydd modd gweld yr arddangosfa deithiol hon mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Gwent yn ystod y cyfnod coffáu a fydd yn para pedair blynedd.

Cysylltu: strong@btinternet.com neu 01291 425638

---

### 5 Awst 2014 - 11 Tach 2018

**Arddangosfa: Wynebau'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AY

www.rwfmuseum.org.uk/cym/index.html

Casglu ac arddangos manylion a ffotograffau pob un o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ymgyrch ledled y wlad i chwilio am ffotograffau, gyda help cymdeithasau hanes, prosiectau cofebau rhyfel, archifau sirol a gwirfoddolwyr er mwyn dod o hyd i dros 10,500 o ffotograffau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Helpwch ni i aduno'r Gatrawd drwy ddod â'r bechgyn hyn adref.

Pob dyn yn cael ei goffáu yn yr Amgueddfa adeg canmlwyddiant ei farwolaeth.

Cysylltwch â ni drwy ffonio 01286 673362 neu e-bostio rwfmuseum1@btconnect.com os gallwch ein helpu neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

# AWST 2016

## 5 Awst 2016 - 1 Maw 2017

### Pabi'r Coffáu

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin , SA44 5UP

www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan

Arddangosfa hanes natur yn edrych ar y pabi a'i bwysigrwydd fel symbol coffáu.

Arddangosfa deithiol gan Amgueddfa Cymru

0300 111 2 333
gwlan@amgueddfacymru.ac.uk

---

## 24 Awst 2016 10:00yb - 29 Ion 2017 5:00yp

### Am Ryddid ac Am Ymerodraeth

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol Abertawe, SA1 3RD

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/

"If the men of Arfon choose to shelter beneath the mountains of Snowdonia, and therefore neglect their duty, then they will eternally lose the prime ideal of Nationalism – namely the opportunity to fight for freedom and for empire…."

Dyma eiriau'r Canon RT Jones o Fethesda yn 1914. Yn aml fe dybir bod holl gymunedau a diwydiannau Cymru wedi ymateb yn frwdfrydig i'r ymgyrch recriwtio a ddaeth cyn consgripsiwn. Mae'r arddangosfa yn edrych ar ymatebion yng nghymunedau chwareli llechi Cymru, gan esbonio os a pham fod y cymunedau hyn yn ei chael yn anodd i ymateb.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch yn uniongyrchol â'r amgueddfa os gwelwch yn dda ar 0300 111 2 333 neu drwy e-bost: waterfront@museumwales.ac.uk

# TACHWEDD 2016

## 3 Tach 2016 - 29 Ion 2017

### "Dai a Tomi"

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol Abertawe, SA1 3RD

www.museumwales.ac.uk/swansea

Ym mhle bynnag yr ymladdodd milwyr Prydain, roedd Cymry yn eu plith. Ym mhle bynnag yr ymladdodd Cymry, roedd glowyr yn eu plith. Bu llawer yn Dwnelwyr ar Ffrynt y Gorllewin, yn ymladd eu rhyfel dirgel eu hunain, o dan – yn hytrach nag yn – y ffosydd.

# IONAWR 2017

## 28 Ion 2017 - 28 Ion 2017

### Cyngerdd Cofio Hedd Wyn

Eglwys Fethodistaidd Elm Hall, Elm Hall Dr, Lerpwl, L18 1LF

Cyngerdd a drefnwyd gan Dr Ben Rees a Chôr Rygbi Gogledd Cymru.

# CHWEFROR 2017

## 1 Chwef 2017 1:15pm - 1 Chwef 2017

### "Yr Ysgwrn: Cadw'r Drws yn Agored" - Naomi Jones

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

www.llgc.org.uk/cy

Cyflwyniad i hanes Yr Ysgwrn, un o gartrefi enwocaf Cymru ac ymdrech Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gadw'r drws yn agored i genedlaethau'r dyfodol.

Mynediad am ddim drwy docyn

Tocynnau (01970) 632 548
digwyddiadau.llyfrgell.cymru

---

## 4 Chwef 2017

### Ffair Gwirfoddoli'r Ysgwrn

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, Gwynedd, LL41 4UW

www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/yr-ysgwrn?name=

Ffair Gwirfoddoli i'w chynnal yn Yr Ysgwrn, cartref y bardd Hedd Wyn, a enillodd gadair eisteddfodol 1917 ar ôl colli'i fywyd yn ystod Brwydr Passchendaele ychydig wythnosau ynghynt.

---

## 4 Chwef 2017 11:00am - 4 Chwef 2017 3:00pm

### Straeon o'r Ffosydd

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

I ddathlu Wythnos Dweud Straeon ymunwch â'r Milwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf wrth iddynt ddatgelu straeon o'r ffosydd.

(delwedd gefndirol) Brwydr Langemarck. Milwyr Prydeinig mewn adfeilion eglwys. Ger Zuydcoote, 16 Awst 1917. © IWM (Q 2710)

### 18 Chwef 2017 - 2 Medi 2017

**Diffodd yr Awen: Hedd Wyn & Edward Thomas**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth , Ceredigion, SY23 3BU

www.llgc.org.uk/cy

Gan mlynedd yn ôl bu farw dau fardd ar faes y gad yn ystod y Rhyfel Mawr; Hedd Wyn ac Edward Thomas. Trwy ein casgliadau amryfal byddwn yn dathlu bywyd a gwaith y beirdd rhyfel yma.

---

### 18 Chwef 2017 10:30am - 18 Chwef 2017 2:45pm

**Cardiau Post i'r Teulu**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Ymunwch â'r hanesydd Sally Pointer wrth iddi siarad am y cardiau post a chyfathrebu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cewch gyfle i brofi eich sgiliau tecstiliau a chreu rhai eich hun. Oedolion yn unig a bydd angen archebu ymlaen llaw drwy e-bostio education@cardiffcastlemuseum.org.uk neu ffonio 02920 873623. Gweithdy yn digwydd am 10:30am, 12:00pm ac 1:45pm.

---

### 22 Chwef 2017 11:00am - 22 Chwef 2017 3:00pm

**Cardiau Post i'r Teulu**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Darganfyddwch straeon teuluoedd a milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf drwy edrych ar ein casgliad o gardiau post o'r Rhyfel Byd Cyntaf a gwneud rhai eich hun i fynd adref gyda chi.

---

### 24 Chwef 2017 11:00am - 24 Chwef 2017 4:00pm

**Tommy Talks**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Darganfyddwch sut fywyd oedd gan y milwr cyffredin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Addas i bob oed.

## MAWRTH 2017

### 8 Maw 2017 11:00am - 8 Maw 2017 3:00pm

**Diwrnod Rhyngwladol y Merched**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Mewn partneriaeth ag EnergiZe Media byddwn yn dathlu rhan merched yn y Rhyfel Byd Cyntaf trwy ddehongli gwisgoedd, sgyrsiau a gweithgareddau.

## EBRILL 2017

### Gwanwyn 2017

**Ail-agor Yr Ysgwrn i'r cyhoedd**

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, Gwynedd, LL41 4UW

http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/home?name=

Ail-agor Yr Ysgwrn – cartref y bardd Hedd Wyn, a enillodd gadair eisteddfodol 1917 ar ôl colli'i fywyd yn ystod Brwydr Passchendaele ychydig wythnosau ynghynt – i'r cyhoedd yn dilyn ailddatblygiad. Rhai o'r prif newidiadau fydd:

- Agor y ffermdy i'r cyhoedd, gan gynnwys y bwtri, y pantri ynghyd â'r llofftydd gan ganolbwyntio ar ddehongli bywyd a gwaith Hedd Wyn yn yr ystafelloedd hyn
- Trosi Beudy Llwyd yn adeilad croeso fydd yn cynnwys derbynfa, caffi, ystafell addysg, ystafell ymchwil ac arddangosfa
- Adfer Beudy Tŷ i gynnwys ffilm am y Rhyfel Mawr, dehongli bywyd yng nghefn gwlad a diwylliant y cyfnod, ynghyd ag addasu'r adeilad i fedru cynnal digwyddiadau
- Troi'r cwt mochyn yn dŷ i ystlumod
- Dymchwel y sied amaeth bresennol a chodi sied newydd, amgylcheddol gyfeillgar (gyda tho o laswellt) yn ei le
- Yn ogystal, bydd safle penodol i barcio ceir ymwelwyr a bydd boiler biomas yn cael ei adeiladu drws nesaf i'r cwt mochyn.

---

### 5 Ebr 2017 1:15pm - 5 Ebr2017

**Edward Thomas - Sgwrs gan Dr Andrew Webb**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

www.llgc.org.uk/cy

Cyfle i ddarganfod hanes Edward Thomas, bardd a nofelydd. Fe ymunodd â'r fyddin yn 1915, a chafodd ei ladd ym Mrwydr Arras yn 1917, yn fuan wedi cyrraedd Ffrainc.

Mynediad am ddim drwy docyn

Tocynnau (01970) 632 548
digwyddiadau.llyfrgell.cymru

---

### 10 Ebr 2017 10:00am - 10 Ebr 2017 3:00pm

**Straeon o'r Ffosydd a Merched yn Gweithio**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Dewch i'r amgueddfa a darganfod mwy am y rôl a chwaraeodd Milwyr Cymreig yn ystod ymgyrchoedd milwrol, yn cynnwys y Tomi yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Daw'r amgueddfa â'r gorffennol yn fyw gyda staff yr amgueddfa yn gwisgo dillad o'r cyfnodau hanesyddol hyn.

Byddwn hefyd yn edrych ar rôl merched yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cewch glywed gan Nyrs Cymorth Gwirfoddol a chlywed sut y gwnaethpwyd sieliau gan ferch o ffatri arfau rhyfel.

---

### 12 Ebr 2017 11:00am - 12 Ebr 2017 4:00pm

**Cwrdd â Milwr o'r Gorffennol**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Dewch i'r amgueddfa a darganfod mwy am y rôl a chwaraeodd Milwyr Cymreig yn ystod ymgyrchoedd milwrol, yn cynnwys y Tomi yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd sgyrsiau am 11am, 1pm a 3pm.

Mae'r profiad hwn yn ffurfio rhan o'r tâl mynediad i Gastell Caerdydd. Bydd Deiliaid Cerdyn Castell Caerdydd yn cael mynediad am ddim.

---

### 19 Ebr 2017 11:00am - 19 Ebr 2017 4:00pm

**Milwyr o'r Gorffennol**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Dewch i'r amgueddfa a darganfod mwy am y rôl a chwaraeodd Milwyr Cymreig yn ystod ymgyrchoedd milwrol, yn cynnwys y Tomi yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd sgyrsiau am 11am, 1pm a 3pm.

Mae'r profiad hwn yn ffurfio rhan o'r tâl mynediad i Gastell Caerdydd. Bydd Deiliaid Cerdyn Castell Caerdydd yn cael mynediad am ddim.

---

### 19 Ebr 2017 9:00am - 20 Ebr 2017 6:00pm

**Cynhadledd Canmlwyddiant Edward Thomas 2017**

Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, CF10 3XQ

http://edwardthomas100.wordpress.com/about/

Bardd sy'n edrych yn ôl yw Edward Thomas. Mae ei farddoniaeth yn coffáu cyflyrau meddwl, pobl a lleoedd. Mae hefyd yn ceisio cyfleu beth sydd wedi'i golli'n llwyr a beth nad oedd yn bwysig; ysgrifennodd 'so many things I have forgot / That once were much to me, or that were not'. Hefyd mae Thomas yn dychmygu dyfodol di-nod i eraill ac ef ei hun. Mae ei farddoniaeth yn rhagweld difaterwch gymaint â hirhoedledd wrth ofyn beth a wnânt: *'do when I am gone?': 'they will do without me as the rain/ Can do without the flowers and the grass'.*

Beth wnawn ni gyda Thomas, y mae ei ysgrifennu a'i enw da yn dal yn berthnasol? Yn 2017, byddwn yn coffáu canmlwyddiant ei farwolaeth gyda chynhadledd bwysig ym Mhrifysgol Caerdydd, lle mae casgliad pwysig o'i lawysgrifau a llythyrau yn SCOLAR. Gyda pharatoad cyfrol bwysig o'i ryddiaith a'i bwysigrwydd mewn ffurfiau newydd o ysgrifennu am natur, nid yw astudio Thomas wedi'i gyfyngu i un agwedd bellach. Rydym eisiau dathlu Thomas a'r agweddau gwahanol i'w waith.

## MEHEFIN 2017

### 1 Meh 2017 11:00am - 1 Meh 2017 3:00pm

**Milwyr, Nyrsys a Gweithwyr Ffatrïoedd Arfau**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Y Ganolfan Ddehongli, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Darganfyddwch fwy am y dynion a'r merched a fu'n brwydro, gweithio ac achub bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Lluniwch filwr, nyrs neu weithiwr ffatri arfau gan ddefnyddio ein troli crefft. Sesiynau galw heibio ac yn addas i deuluoedd. Mae'r profiad hwn yn ffurfio rhan o'r tâl mynediad i Gastell Caerdydd. Bydd Deiliaid Cerdyn Castell Caerdydd yn cael mynediad am ddim.

(delwedd gefndirol) Brwydr Langemarck. Milwyr Prydeinig mewn adfeilion eglwys. Ger Zuydcoote, 16 Awst 1917. © IWM (Q 2711)

# GORFFENNAF 2017

## 28 Gorff 2017 2:30pm - 28 Gorff 2017

### Gwasanaeth Cymraeg ym Mynwent Tyne Cot, Passchendaele

Mynwent Tyne Cot, Zonnebeke, Fflandrys

Gwasanaeth coffa Cymraeg ym Mynwent Tyne Cot, dan arweiniad y Tad Bart Demuynck gyda pherfformiad gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru.

---

## 29 Gorff 2017 - 29 Gorff 2017

### Cyngerdd Coffa Gala gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru

Eglwys Langemark, Fflandrys

Cyngerdd Gala gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru, yn cynnwys perfformiadau gan Rhys Meirion (tenor), Dylan Cernyw (telyn), Gwydion Rhys (Soddgrwth), Dilwyn Morgan a grŵp gwerin Ffleminaidd.

(Artistiaid Cymreig ar gael trwy'r daith os bydd eu hangen ar gyfer digwyddiadau eraill).

---

## 30 Gorff 2017 12:00pm - 30 Gorff 2017 4:00pm

### Ffilm Hedd Wyn gydag ail-gread/ sgwrs i ddilyn

Amgueddfa Abertawe, Dinas a Sir Abertawe, Abertawe, SA1 1SN

www.swanseamuseum.co.uk

Ffilm yn dangos – Hedd Wyn. Ffilm Gymraeg fywgraffyddol wrth-ryfel, o 1992 a ysgrifennwyd gan Alan Llwyd ac wedi'i chyfarwyddo gan Paul Turner. Ail-gread/ sgwrs goffaol i ddilyn gyda Rod Hughes a'i ffrindiau o Abertawe.

## 30 Gorff 2017 8:00pm - 30 Gorff 2017

### Cyfranogiad Cymraeg yn seremoni'r Caniad Olaf

Menin Gate, Menenstraat, 8900 Ieper, Gwlad Belg

Cyfranogiad Cymraeg yn seremoni ddyddiol y Caniad Olaf, lle bydd Côr Rygbi Gogledd Cymru yn canu.

Dydd Sul, 30 Gorffennaf 2017 a/ neu ddydd Llun 31 Gorffennaf 2017 8:00pm

---

## 31 Gorff 2017 5:00am - 31 Gorff 2017

### Seremoni Goffa - Passchendaele

Cofeb Gymreig yn Fflandrys, Ger Langemark, Fflandrys

Seremoni Goffa i nodi dechreuad Trydedd Frwydr Ypres.

---

## 31 Gorff 2017 10:00am - 31 Gorff 2017

### Gwasanaeth Coffa Hedd Wyn a Francis Ledwidge

Mynwent Artillery Wood, Poezelstraat 4, 8904 Ypres, Gwlad Belg

Gwasanaeth Coffa ar ganmlwyddiant marwolaeth y bardd Cymraeg Hedd Wyn a'r bardd Gwyddelig Francis Ledwidge a gafodd eu lladd yn ystod brwydr Cefn Pilckem. Bydd y seremoni yn cynnwys perfformiadau gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru a Meibion Prysor.

---

## 31 Gorff 2017 4.00pm - 31 Gorff 2017

### Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele)

Cofeb Gymreig yn Fflandrys, Ger Langemark, Fflandrys

Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol i nodi canmlwyddiant ers cychwyn Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele). Ewch i www.cymruncofio.org am fwy o wybodaeth.

---

## 31 Gorff 2017

### Cofio canrif ers marwolaeth Hedd Wyn

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, Gwynedd LL41 4UW

www.eryri-npa.gov.uk/visiting/yr-ysgwrn

Gweithgareddau yn Yr Ysgwrn i gofio canrif ers marwolaeth Hedd Wyn, a enillodd gadair eisteddfodol 1917 ar ôl colli'i fywyd yn ystod Brwydr Passchendaele ychydig wythnosau ynghynt – i'r cyhoedd yn dilyn ailddatblygiad.

Ewch at wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am wybodaeth bellach.

# AWST 2017

## 1 Awst 2017 - 1 Awst 2017

### Perfformiad gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru

Talbot House, Gasthuisstraat 43, 8970 Poperinge, Gwlad Belg

Perfformiad gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru yng ngerddi Talbot House yn Poperinge, Gwlad Belg.

---

## 3 Awst 2017 12:00pm - 3 Awst 2017 4:00pm

### Ffilm Hedd Wyn gydag ail-gread/ sgwrs i ddilyn

Amgueddfa Abertawe, Dinas a Sir Abertawe, Abertawe, SA1 1SN

www.swanseamuseum.co.uk

Ffilm yn dangos – Hedd Wyn. Ffilm Gymraeg fywgraffyddol

wrth-ryfel, o 1992 a ysgrifennwyd gan Alan Llwyd ac wedi'i chyfarwyddo gan Paul Turner. Ail-gread/ sgwrs goffaol i ddilyn gyda Rod Hughes a'i ffrindiau o Abertawe.

### 4 Awst 2017 - 12 Awst 2017

### Presenoldeb Yr Ysgwrn yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Bodedern, Ynys Môn

https://eisteddfod.cymru/mon-2017

Presenoldeb gan Yr Ysgwrn ar stondin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal ger Bodedern, Ynys Môn – caiff replica y Gadair Ddu ei harddangos yno.

### 5 Awst 2017 - 25 Medi 2017

### Poppies: Weeping Window yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Senedd, Caerdydd, CF99 1NA

www.assembly.wales/cy

Bydd y gosodiad eiconig Weeping Window, sy'n cynnwys dros 10,000 o babïau cerameg, yn addurno tu blaen y Senedd – cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru – o 5 Awst hyd at 25 Medi 2017.

Bydd y gosodiad yn ffurfio rhan o raglen bedair blynedd y Cynulliad i nodi 100 mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf. "Mae'n anrhydedd i'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol, i gynnal y gosodiad eiconig hwn," meddai'r Llywydd, Elin Jones AC.

"Mae'r Senedd yn ganolbwynt bywyd sifig a gwleidyddol Cymreig ac mae'n briodol ein bod yn coffáu'r aberth a wnaed gan nifer o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf drwy gynnal y gwaith teimladwy hwn. Mae'r gosodiad hwn wedi chwarae rhan allweddol ar draws y DU i goffáu'r rhyfel hwn. Ni ddylem anghofio'r effaith a gafodd ar gynifer o bobl ar draws Cymru a'r byd."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy e-bost – contact@assembly.wales neu ffoniwch 0300 200 6565

### 6 Awst 2017 12:00pm - 6 Awst 2017 4:00pm

### Ffilm Hedd Wyn gydag ail-gread/ sgwrs i ddilyn

Amgueddfa Abertawe, Dinas a Sir Abertawe, Abertawe, SA1 1SN

www.swanseamuseum.co.uk

Ffilm yn dangos – Hedd Wyn. Ffilm Gymraeg fywgraffyddol wrth-ryfel, o 1992 a ysgrifennwyd gan Alan Llwyd ac wedi'i chyfarwyddo gan Paul Turner. Ail-gread/ sgwrs goffaol i ddilyn gyda Rod Hughes a'i ffrindiau o Abertawe.

### 21 Awst 2017 - 7 Hyd 2017

### Not About Heroes

Flying Bridge Limited, Theatr Glan yr Afon a Thaith Cymru, Casnewydd, NP20

www.flyingbridgetheatre.co.uk

Drama lwyfan syfrdanol yw Not About Heroes, yn dynodi cyfeillgarwch unigryw y beirdd rhyfel Wilfred Owen a Siegfried Sassoon. Mae'n dyfalu'r dylanwad ar farddoniaeth ei gilydd, a ddefnyddion nhw i herio'r sensoriaid a hysbysu'r cyhoedd ym Mhrydain am yr erchyllterau oedd yn digwydd ar y llinell flaen.

Yn 1917 roedd y ddau yn gleifion yn Ysbyty Craiglockart yng Nghaeredin, Owen yn dioddef o sioc rhyfel a Sassoon, a oedd yn arwr rhyfel, bellach yn anghydffurfiwr cyhoeddus, wedi'i ddiflasu gan oferedd a chyflafan ddidostur y ffosydd.

Goroesodd Sassoon y rhyfel. Lladdwyd Owen wythnos cyn y Cadoediad yn Nhachwedd 1918. Mae Not About Heroes yn adrodd ei siwrnai i fod yn fardd rhyfel, gafodd enwogrwydd ar ôl ei farwolaeth, drwy ei berthynas â Sassoon, eu casineb o ryfel a'u cred yng ngrym barddoniaeth.

Mae Not About Heroes yn ddrama bwerus, deimladwy sy'n procio'r meddwl ac yn enillydd Fringe First Caeredin / Actor Gorau / yng Ngwobrau Theatr Cymru 2015.

Wedi'i lwyfannu i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae'r fersiwn yma o gynhyrchiad Clwyd Theatr Cymru wedi'i gyfarwyddo gan Tim Baker, ac wedi'i gyd-gynhyrchu gan Theatr Glan yr Afon a Flying Bridge. Bydd y cynhyrchiad yn agor yn Pleasance Caeredin ac yna'n teithio trwy Gymru a Lloegr yn hydref 2017.

## MEDI 2017

### 7 Medi 2017 11:00am - 28 Tach 2017 5:00pm

### Rhyfel Byd Cyntaf: Y Ffrynt Cartref

The Canal Wharf, Powys, Y Trallwng, SY21 7AQ

Parhau â rhaglen o arddangosfeydd Amgueddfa Powysland sy'n coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd arddangosfeydd 2017 yn edrych ar sut roedd pobl Prydain yn ymdopi â galwadau'r rhyfel ac absenoldeb cymaint o ddynion ifanc cryf.

Am fwy o wybodaeth dilynwch yr amgueddfa ar Facebook neu cysylltwch â'r amgueddfa yn powysland@powys.gov.uk

**(delwedd gefndirol) Brwydr Polygon Wood. Lluoedd y 10fed Bataliwn, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, yn tynnu bomiau yn Clapham Junction ar y Menin Road o flaen eu hymosodiad ar Zonnebeke, 25 Medi 1917. © IWM (Q 5999)**

### 9 Medi 2017 - 10 Medi 2017

**Gŵyl y Gadair Ddu**

Parc Penbedw, Penbedw, Cilgwri

http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/yr-ysgwrn?name=

Gŵyl i gofio canrif ers gwobrwyo'r Gadair Ddu i'r bardd Hedd Wyn yn ystod Eisteddfod Penbedw yn 1917.

Ewch at wefan Yr Ysgwrn am wybodaeth bellach.

---

### 9 Medi 2017 - 16 Medi 2017

**Gŵyl y Gadair Ddu**

Trawsfynydd, Gwynedd

http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/yr-ysgwrn?name=

Bydd Gŵyl y Lleuad Borffor yn cynnwys wythnos o weithgareddau yn Nhrawsfynydd i gofio canrif ers gwobrwyo'r gadair eisteddfodol i un o'i meibion amlycaf, y bardd Hedd Wyn, yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 1917 ym Mhenbedw. Mae'r gweithgareddau'n cael eu trefnu gan aelodau'r gymuned yn Nhrawsfynydd gyda chefnogaeth Yr Ysgwrn – sef cartref Hedd Wyn – ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ewch i wefan Yr Ysgwrn am wybodaeth bellach.

---

### 18 Medi 2017 - 06 Ion 2018

**Y Ffordd i Ddamascus: Y Ffiwsilwyr Cymreig, y Dwyrain Canol a'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sir Wrecsam, Regent Street, Cymru, Wrecsam, LL11 1RB

www.wrexham.gov.uk/english/heritage/

Ymladdodd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig gyda'r Ymerodraeth Brydeinig a lluoedd y Cynghreiriaid o Gamlas Suez i ildiad yr Ymerodraeth Ottoman ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Caiff y brwydrau hyn yn aml eu hesgeuluso, ond roedd y brwydrau yn erbyn Byddin Twrci yn Gaza a Phalesteina, ac ym Mesopotamia, yn hanfodol i strategaeth ryfel Prydain ac roedd milwyr o gatrodau Cymreig yng nghanol y brwydro. Bydd yr arddangosfa yn dweud stori'r Ffiwsilwyr yn ystod yr ymgyrchoedd hyn ac mae wedi'i seilio ar archifau a chasgliadau amgueddfa gatrodol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a gydag arteffactau pwysig o amgueddfeydd eraill ar draws y DU.

[Manylion terfynol a theitl yr arddangosfa i'w cadarnhau]

---

### Medi 2017

**Ymweliad baton Gemau'r Gymanwlad â'r Ysgwrn**

Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, Gwynedd LL41 4UW

www.eryri-npa.gov.uk/visiting/yr-ysgwrn

Bydd baton Gemau'r Gymanwlad yn ymweld â'r Ysgwrn, cartref y bardd Hedd Wyn, a enillodd gadair eisteddfodol 1917 ar ôl colli'i fywyd yn ystod Brwydr Passchendaele ychydig wythnosau ynghynt.

Ewch i wefan Yr Ysgwrn am wybodaeth bellach.

## TACHWEDD 2017

### 1 Tach 2017 - 30 Tach 2017

**Rhyfel Byd Cyntaf Prosiect Wynebau y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig**

Castell Caernarfon, Ffos y Castell Caernarfon, LL55 2AY

www.rwfmuseum.org.uk

Ar gael drwy'r flwyddyn.

Ymunwch â phrosiect yr Amgueddfa i chwilio am luniau o'r Ffiwsilwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym angen eich help! Collodd y Ffiwsilwyr tua 11,000 o filwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac rydym am eu coffáu drwy ganfod cynifer o luniau ohonynt ag y gallwn. Ers 2014 rydym wedi casglu tua 2000 o luniau na fu gyda'i gilydd o'r blaen.

Cysylltwch â ni ar rwfmuseum1@btconnect.com am fanylion ar sut y gallwch helpu.

---

### 11 Tach 2017 10:45am - 11 Tach 2017

**Gwasanaeth Coffa**

Amgueddfa Hanes Cenedlaethol, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB

https://amgueddfa.cymru/sainffagan/

Ymunwch â chymuned Newbridge wrth iddynt ymgasglu o amgylch y gofeb ryfel ar gyfer ein gwasanaeth blynyddol i gofio'r rhai a gollwyd.

---

### 11 Tach 2017 5:00pm - 11 Tach 2017 7:00pm

**Sgrinio Wynebau'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Y Maes - Sgwâr y Castell Caernarfon

http://museum.wales/stfagans

Bydd rhestr o bron i 11,000 o'r Ffiwsilwyr a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei thaflunio ar Sgwâr Castell Caernarfon (Y Maes) ar ddydd Sadwrn 11 Tachwedd 2017. Bydd y tafluniad yn cynnwys nifer o luniau o'r rhai a fu farw.

(delwedd gefndirol) Brwydr Langemark. Ffrwydradau sieliau yn y pellter ar Gefn Pilckem, 18 Awst 1917. © IWM (Q 2738)